

# Effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar

**Tachwedd 2024**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy’n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Crynodeb gweithredol** ........ **1**

**Argymhellion** ........ **3**

**Cyflwyniad** ........ **4**

**Cefndir** ........ **6**

**Cymorth i leoliadau ac ysgolion** ........ **10**

Cymorth ar gyfer darpariaeth, addysgu a dysgu ........ 10

Cymorth i deuluoedd ........ 13

Cyllid grant ........ 16

Cymorth ar gyfer ADY ........ 20

**Effeithiolrwydd y ddarpariaeth** ........ **22**

Amgylcheddau effeithiol ........ 22

Oedolion sy’n galluogi dysgu ........ 24

Profiadau difyr ........ 25

Dysgu proffesiynol ........ 26

Cynnig darpariaeth addysg ........ 26

**Pontio** ........ **27**

**Dulliau a sail y dystiolaeth** ........ **30**

**Geirfa** ........ **32**

Niferoedd – symiau a chyfrannau ........ 32

**Cyfeiriadau** ........ **33**

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw'r cymorth a'r ddarpariaeth a gynigir gan ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar o ran mynd i'r afael ag effeithiau andwyol tlodi ac anfantais ar blant yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn cefnogi'r darparwyr hyn â dulliau addysgegol y blynyddoedd cynnar, a sut orau i gynorthwyo plant y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae lleoliadau ac ysgolion na chynhelir a ariennir yn defnyddio'u cyllid o'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC)[1] ar ymyriadau cynaliadwy i wella cyrhaeddiad plant y caiff tlodi ac anfantais effaith andwyol arnynt. Yn olaf, mae'r adroddiad yn ystyried pa mor dda y mae'r ddarpariaeth ar gyfer chwarae a dysgu mewn lleoliadau ac ysgolion yn cynorthwyo plant yn eu datblygiad a'r cyfnod pontio rhwng lleoliadau ac ysgolion. Mae wedi'i seilio ar ymgysylltu â sampl o 31 o leoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin, cynradd a phob oed. Ystyriom dystiolaeth o 15 awdurdod lleol, hefyd.

Canfuom fod amrywiad o ran sut y ceir mynediad at addysg gynnar ledled Cymru, yn dibynnu ar sut mae awdurdodau lleol yn darparu addysg feithrin. Mae'r amrywiad hwn yn arwain at ddarpariaeth annheg ledled Cymru. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhieni yn aml yn cael ychydig iawn o ddewis, neu ddim dewis o gwbl, ynglŷn â ble y gallant gael addysg feithrin ar gyfer eu plentyn.

Roedd amrywiad mewn hygyrchedd dysgu proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer y sector, gydag arweinwyr yn y sector nas cynhelir yn fwy tebygol o fod wedi cael mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar gan eu hawdurdodau lleol a sefydliadau ymbarél[2] nag ymarferwyr mewn ysgolion. Fodd bynnag, dywedodd llawer o arweinwyr ysgolion fod dysgu proffesiynol cyfyngedig i gefnogi addysgeg effeithiol y blynyddoedd cynnar yn cael ei gynnig gan awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion.

Yn ystod ein hymweliadau, dywedodd arweinwyr o leoliadau ac ysgolion nas cynhelir fod llawer o deuluoedd yn profi effaith negyddol tlodi ac anfantais ar lefel waeth o lawer na'r hyn a welwyd yn y gorffennol. O ganlyniad, roedd cyfran fawr o'u hamser a'u hadnoddau yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Bron ym mhob achos, roedd lleoliadau ac ysgolion yn treulio amser yn dod i adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda. Roeddent yn treulio amser yn meithrin perthnasoedd cefnogol ac

---

[1] Mae'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) yn gyllid a roddir i ysgolion a lleoliadau addysgol (lleoliadau). Mae lleoliadau'n cynnwys meithrinfeydd, unedau cyfeirio disgyblion a thiwtora gartref.
Nod cyllid y GDD, GDD Blynyddoedd Cynnar (GDDBC), a GDD Addysg heblaw yn yr ysgol (GDD AHY) yw gwella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel. Rhoddir GDD Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal neu blant sy'n derbyn gofal (PDG). Mae'n gwneud hyn trwy leihau'r rhwystrau y maent yn aml yn eu hwynebu i gyflawni eu llawn botensial.
Mae'r GDD yn adnodd allweddol ar gyfer cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o ran safonau a dyheadau uchel i bawb.

[2] Cwlwm yw'r sefydliad ymbarél ar gyfer darparwyr y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae'n dod â'r pum sefydliad gofal plant blaenllaw yng Nghymru at ei gilydd i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog integredig a fydd yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru. Mae sefydliadau 'Cwlwm' yn cynnwys Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin (sefydliad arweiniol), Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.

ymddiriedus. Er nad oedd arweinwyr wedi cael hyfforddiant na gwybodaeth benodol gan awdurdodau lleol am sut orau i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol a datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, roeddent yn gwybod ac yn deall pwysigrwydd cynorthwyo teuluoedd a'r gwahaniaeth yr oedd hyn yn ei wneud i'w bywydau. Roedd hyn yn aml ar ffurf cymorth ymarferol fel cydweithio â'r trydydd sector i ddarparu bwydydd, teganau, gwisg ysgol, a chymorth ymarferol â materion fel tai.

Mae'r GDDBC yn darparu cyllid i ysgolion a lleoliadau i gynorthwyo plant 3-4 oed â'u hanghenion cyfathrebu, lles a chorfforol. Canfu ein hadolygiad fod annhegwch o ran cyllid ar draws y sectorau nas cynhelir yng Nghymru, oherwydd cymhlethdodau fformiwlâu cyllido ac anhawster casglu data ar y grŵp oedran hwn. O ganlyniad i hyn, mae awdurdodau lleol nad ydynt yn ariannu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir yn derbyn cyllid, ac awdurdodau lleol â lefelau uchel o amddifadedd yn derbyn cyllid cyfyngedig.

Roedd y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir sy'n derbyn cyllid GDDBC dirprwyedig yn gwneud defnydd da o'r arian hwn i brynu adnoddau a oedd yn helpu datblygu anghenion cyfathrebu a lles plant, fel offer awyr agored ac adnoddau lleferydd ac iaith. Roeddent yn mynychu hyfforddiant buddiol a oedd yn eu cynorthwyo â'u rolau, yn enwedig wrth gefnogi medrau cyfathrebu plant. Yn ychwanegol, roeddent yn cyfoethogi profiadau plant trwy amrywiaeth o ymweliadau, yn ogystal â gwahodd ymwelwyr i'r lleoliad. Fodd bynnag, yn yr awdurdodau lleol hynny lle roedd yr arian grant yn cael ei gadw'n ganolog, nid oeddent bob amser yn targedu hyfforddiant yn ddigon da at fynd i'r afael ag anfantais neu'n targedu'r lleoliadau mwyaf difreintiedig yn ddigon da.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd arweinwyr yn aml yn defnyddio'r cyllid hwn i gynnal y ddarpariaeth bresennol. Er enghraifft, roeddent yn cyflogi oedolion ychwanegol i ddarparu cymhareb oedolyn / disgybl addas yn nosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar. Mewn ychydig o enghreifftiau, roedd yr ymarferwyr hyn yn cyflawni ymyriadau lleferydd ac iaith ac iechyd a lles emosiynol. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd arweinwyr yn gallu gwahanu eu cyllid GDDBC oddi wrth eu cyllid ehangach o'r GDD, ac felly, nid oeddent yn gallu dyrannu eu cyllid mewn ffordd dargedig yn ddigon da.

Mae llawer o arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant a'u teuluoedd ddod i adnabod ymarferwyr a'r lleoliad neu'r ysgol cyn dechrau yno. Mae hyn yn cynnwys pan fydd plant yn pontio o'r cartref i leoliad neu ysgol, neu rhwng lleoliad ac ysgol.

# Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Sicrhau bod cyllid y GDDBC yn cael ei ddyrannu'n deg i awdurdodau lleol sy'n ariannu lleoliadau nas cynhelir.

A2 Darparu arweiniad gwell ar sut caiff y cyllid ei ddosbarthu a'i ddefnyddio mewn lleoliadau ac ysgolion

**Dylai awdurdodau lleol:**

A3 Ddarparu dysgu proffesiynol penodol a gwybodaeth i ysgolion a lleoliadau am sut orau i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol, personol a datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar y mae tlodi ac amddifadedd yn cael effaith andwyol arnynt

A4 Sicrhau bod arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gyllid GDDBC er mwyn iddynt allu ei dargedu'n effeithiol ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais ar gyfer eu disgyblion yn y blynyddoedd cynnar

A5 Sicrhau cydraddoldeb o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar rhwng ysgolion a lleoliadau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl amgylcheddau effeithiol, oedolion sy'n galluogi dysgu a phrofiadau difyr

**Dylai arweinwyr ysgolion a lleoliadau:**

A6 Werthuso'r effaith a gaiff cyllid y GDDBC ar gynnydd medrau a datblygiad plant

A7 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar yn ddatblygiadol briodol

# Cyflwyniad

Caiff yr adroddiad thematig hwn ei ysgrifennu i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith[3] at Estyn ar gyfer 2023-2024.

Mae'r adolygiad thematig hwn yn canolbwyntio ar blant yn y blynyddoedd cynnar y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, a'r effaith a gaiff hyn ar eu cyrhaeddiad addysgol cynnar. Mae'n ystyried effeithiolrwydd y cymorth a'r ddarpariaeth a gynigir gan ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar, effeithiolrwydd y trefniadau pontio ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar o'r cartref i'r lleoliad, a rhwng lleoliadau addysg a ariennir a'r ysgol. Mae'r adolygiad yn ystyried yr arfer fwyaf effeithiol a lle nad yw arfer yn ddigon effeithiol. Mae hefyd yn gwerthuso pa mor dda y mae awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwella ysgolion, yn cefnogi ac yn herio darparwyr ac ysgolion nas cynhelir a ariennir i wella deilliannau ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi.

Ymwelodd arolygwyr â chyfanswm o 13 o leoliadau meithrin nas cynhelir lle caiff yr addysg ei hariannu[4] ac 17 o ysgolion sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar. Roedd y rhain yn cynnwys 1 ganolfan i blant y blynyddoedd cynnar, 15 ysgol gynradd ac 1 ysgol bob oed. Ymwelom â sampl o leoliadau ac ysgolion nas cynhelir ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, sicrhaom fod cydbwysedd rhesymol o leoliadau o wahanol gategorïau gofal plant, fel lleoliadau gofal dydd llawn a gofal sesiynol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o ystod o weithgareddau a oedd yn cynnwys trafodaethau ag arweinwyr mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir ynglŷn â'u harferion a'u darpariaeth, effaith cyllid grant wedi'i anelu'n benodol at fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais a'r cynnig dysgu proffesiynol i wella'u harfer. Defnyddiom dystiolaeth o deithiau dysgu[5] hefyd i'n helpu i gael dealltwriaeth o sut roedd ansawdd yr amgylchedd dysgu yn diwallu anghenion plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Casglom wybodaeth gan awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion, a buom yn ystyried sut roeddent yn cefnogi a herio darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar ac ysgolion i wella deilliannau ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Rhoddodd y gweithgareddau hyn ddarlun cenedlaethol i ni o ansawdd y cymorth a'r ddarpariaeth yn sector y blynyddoedd cynnar, ar gyfer y plant hynny a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, neu y mae tlodi'n cael effaith andwyol arnynt.

Wrth werthuso ansawdd y ddarpariaeth a gynigir gan leoliadau ac ysgolion, edrychom ar eu harlwy cwricwlwm a sut roedd yn cael ei gyflwyno. Edrychodd yr adolygiad hwn ar ba mor dda y mae lleoliadau ac ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu dilys a phwrpasol ar gyfer plant, sy'n cefnogi eu hanghenion datblygiadol orau.

---

[3] Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2023 i 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU: https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2023-i-2024-html

[4] Mae lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir yn ddarparwyr gofal plant sy'n darparu addysg feithrin.

[5] Arsylwadau o'r amgylchedd, profiadau ac arfer

Wrth ystyried y trefniadau pontio ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar, gwelsom fod cyfeiriadau cyfyngedig at drefniadau pontio yng nghanllawiau'r cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion. Mae'r canllawiau hyn yn datgan y dylid cynnwys dysgwyr cymaint ag y bo modd yn y broses bontio, ac y dylid asesu dysgwyr o fewn chwe wythnos o ddechrau mewn lleoliad i gefnogi dealltwriaeth o deithiau dysgwyr a theilwra dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, rhoddodd y Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir nas Cynhelir fwy o fanylion i arweinwyr eu hystyried, yn cynnwys y mathau amrywiol o bontio y gallai plentyn ddod ar eu traws yn ystod ei ddiwrnod. Er bod y canllawiau cwricwlwm hyn wedi'u cynllunio ar gyfer Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir, gellir eu defnyddio i gefnogi datblygiad arfer effeithiol mewn ysgolion.

Edrychodd yr adolygiad hwn ar effeithiolrwydd trefniadau cymorth a darpariaeth a sut roeddent yn diwallu anghenion pob un o'r plant, yn enwedig y rhai y caiff tlodi effaith andwyol arnynt. Mae Cynnig Gofal Plant[6] Dechrau'n Deg yn chwarae rhan sylweddol ym mholisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar blant yn y blynyddoedd cynnar. Felly, nid oeddem yn gallu ystyried pa mor fuddiol oedd y trefniadau pontio ar gyfer plant y blynyddoedd cynnar heb ystyried effeithiolrwydd y trefniadau pontio rhwng gofal plant Dechrau'n Deg ac addysg a ariennir mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir. Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn, bu'r tîm yn ystyried pa mor dda y mae lleoliadau ac ysgolion yn cynorthwyo plant a'u teuluoedd wrth iddynt bontio o'r cartref i'r lleoliad, ac o'r lleoliad i ddarpariaeth yn yr ysgol.

Trwy gydol y broses, defnyddiodd y tîm yr holl dystiolaeth a gasglwyd i nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir, awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwella ysgolion. Mae hefyd o ddiddordeb i rieni a phartneriaid perthnasol. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd, fel ei gilydd.

---

[6] Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.
Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys:

- Gofal plant o ansawdd uchel, rhan-amser (12.5 awr yr wythnos) a ariennir ar gyfer plant 2–3 oed
- Gwasanaeth ymwelwyr iechyd estynedig
- Mynediad at gymorth rhianta
- Cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Er mis Ebrill 2023, mae Cam 2 rhaglen Ehangu'r Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar ymestyn gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed ledled Cymru fel rhan o ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys yr holl blant 2 oed.

# Cefndir

Adroddodd Sefydliad Joseph Rowntree (Davies et al, 2024) ar y sefyllfa bresennol ar draws gwahanol grwpiau o bobl a rhanbarthau yn ymwneud â lefelau tlodi yn y Deyrnas Unedig. Rhoddodd yr adroddiad hwn ddarlun cynhwysfawr o dlodi ledled y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Nododd crynodeb o'r canfyddiadau:

- Fod tlodi wedi cynyddu i lefelau yn agos at lefelau cyn y pandemig; plant sydd wedi bod â'r cyfraddau tlodi uchaf yn gyson.
- Mae tlodi yn dyfnhau. Mae'r rhai sy'n byw mewn 'tlodi dwfn iawn'[7] wedi cynyddu a dyma'r grŵp mwyaf o bobl mewn tlodi erbyn hyn. Mae hyn yn dangos bod tlodi dwfn yn effeithio ar ran sylweddol o'r rhai sydd eisoes mewn tlodi.

Mae rhai grwpiau o bobl yn wynebu lefelau hynod uchel o dlodi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Teuluoedd mwy – teuluoedd â 3 o blant neu fwy.
- Teuluoedd y mae eu cyfrifoldebau gofal plant yn cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Llawer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae gan yr aelwydydd hyn hefyd gyfraddau uwch o dlodi plant, tlodi dwfn iawn, a thlodi parhaus.
- Pobl anabl
- Gofalwyr anffurfiol
- Teuluoedd nad ydynt mewn gwaith
- Gweithwyr rhan-amser a phobl hunangyflogedig
- Pobl mewn llety rhent, sy'n cael eu gwthio i dlodi gan y swm y mae'n rhaid iddynt ei wario ar dai
- Teuluoedd sy'n hawlio budd-daliadau yn gysylltiedig ag incwm

Yn Arolwg Cenedlaethol o Rieni 2023 (Parentkind, 2023), dywedodd 30% o rieni yng Nghymru a ymatebodd eu bod yn pryderu am gost anfon eu plentyn i'r ysgol.

Y gyfradd tlodi yng Nghymru rhwng 2019/20 a 2021/22 oedd 22%, ac roedd y cyfraddau tlodi plant yn 28% (Davies et al, 2024).

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn 2024 (Llywodraeth Cymru, 2024a) gyda ffocws ar wella cyfleoedd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Nododd y strategaeth:

- Fod tlodi plant yn gallu effeithio ar ddatblygiad plentyn ifanc
- Os yw plant yn cael y cymorth cywir yn gynnar, ei fod yn gallu helpu eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl

Gall tlodi effeithio ar brofiadau a deilliannau addysgol plant. Gall gael effeithiau niweidiol ar eu dyheadau, eu cyflawniad addysgol a'u cyfleoedd yn ddiweddarach

[7] Yn y Deyrnas Unedig, o ran y diffiniad o dlodi dwfn, mae incwm aelwyd yn llai na 40% o incwm canolrifol aelwyd ar ôl costau tai.
Mae rhai enghreifftiau o'r hyn y mae'n ei olygu i fod mewn tlodi dwfn yn cynnwys: Peidio â chael digon o fwyd, methu gwresogi eich cartref, bod heb wely, a heb fod yn gallu talu rhent.

mewn bywyd. Os bydd plant sy'n byw mewn tlodi yn cael y cymorth cywir yn gynnar, gall helpu eu datblygiad a gwella'u deilliannau a'u lles corfforol ac emosiynol.

Cenhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru[8] yw cyflawni dyheadau uchel i bawb trwy leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chynorthwyo pob dysgwr i fod yn ddinasyddion iach, ymgysylltiedig, mentrus a moesegol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn gwaith a bywyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Caiff hyn ei gryfhau gan Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2020), a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021 ac sy'n gwneud mynd i'r afael ag effaith tlodi yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol.

Cyflwynwyd sawl strategaeth yn y blynyddoedd diwethaf i helpu lleihau effaith tlodi, yn enwedig ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, mae mentrau fel Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, yn cynnwys darparu gofal plant rhan-amser (12.5 awr yr wythnos) o ansawdd uchel a ariennir ar gyfer plant 2–3 oed, gwasanaeth estynedig ymwelwyr iechyd, cyfle i gael cymorth rhianta a chymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Er mis Ebrill 2023, mae Cam 2 rhaglen Ehangu'r Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar ymestyn gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed ledled Cymru fel rhan o ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys yr holl blant 2 oed. Mae dulliau eraill yn cynnwys y Cynnig Gofal Plant, sy'n darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant bob wythnos a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf penodol ac mewn gwaith neu'n dilyn cyrsiau hyfforddiant ac addysg cymwys. Yn ychwanegol, lansiodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC) (Llywodraeth Cymru, 2024b). Mae hon yn ymagwedd integredig at addysg a gofal plant ar gyfer pob plentyn 0-5 oed. Mae'n cynnwys Fframwaith Ansawdd sy'n disgrifio'r egwyddorion cyffredin a ddylai arwain pob lleoliad, ysgol ac ymarferwr i ddarparu profiad dysgu a gofal ysgogol ac o ansawdd uchel ar gyfer plant, ni waeth pa leoliad y maent yn ei fynychu.

Ochr yn ochr â'r rhain, mae Polisi Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, (Llywodraeth Cymru, 2022a) yn rhan allweddol o'r polisi ehangach ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Yn adroddiad Estyn Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol (2020), rydym yn amlinellu pwysigrwydd ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, cymunedau, gwasanaethau statudol ac asiantaethau arbenigol i ddiwallu anghenion disgyblion.

Nid yw'r adolygiad presennol yn mesur effaith lawn y polisïau a'r strategaethau hyn, ond ei nod yw ystyried yn agosach sut mae lleoliadau ac ysgolion yn defnyddio'r cymorth a'r cyllid grant sydd ar gael iddynt, fel y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC), a'r ffordd orau i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

[8] https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl

Prif nod polisïau a rhaglenni'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru yw cynorthwyo'r holl blant i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 fod plant sy'n byw mewn tlodi yn wynebu risg uwch o gael anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae cyfle i elwa ar gyfleoedd chwarae o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol pob plentyn. Mae'r rhain yn hanfodol, nid yn unig i allu plentyn i ddysgu, ond hefyd i'w fedrau cymdeithasu a'i allu i gyfathrebu â phobl eraill.

Mae ymchwil (Sylva et al, 2004) yn awgrymu bod 'Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar' (ECPLC) o ansawdd da yn arwain at welliannau yn natblygiad plant mewn blynyddoedd diweddarach, fel medrau iaith estynedig; perfformiad addysgol gwell mewn mathemateg a darllen; a chynnydd mewn ymddygiad a deilliannau cadarnhaol. Cydnabyddir bod plant sy'n mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn fwy annibynnol, yn canolbwyntio ar eu chwarae am gyfnod hirach, a phan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, maent yn fwy cydweithredol ac wedi'u paratoi'n well ar gyfer yr heriau sy'n eu hwynebu. Gall plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi wynebu rhwystrau rhag manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Ledled Cymru, mae gan bob plentyn hawl i gael addysg gynnar (gelwir hefyd yn addysg feithrin) o'r tymor ar ôl ei drydydd pen-blwydd. Mae pob awdurdod lleol yn darparu isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg gynnar. Gellid cynnig hyn mewn ystod o wahanol ddarpariaethau fel:

- ysgolion a gynhelir
- cylchoedd chwarae
- meithrinfeydd dydd
- cylchoedd meithrin

Yn ystod y tymor, mae'r addysg feithrin hon yn ffurfio rhan o'r 30 awr o oriau gofal plant. Gall rhieni a gwarcheidwaid wneud cais am ofal plant ac addysg gynnar am hyd at 30 awr yr wythnos. Mae'r 30 awr yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg gynnar a hyd at 20 awr o ofal plant. Mae faint o ofal plant y bydd rhiant yn ei dderbyn yn dibynnu ar nifer yr oriau addysg gynnar a gynigir gan yr awdurdod lleol. Gellir defnyddio oriau gofal plant a ariennir yn ystod y tymor, wythnosau gwyliau ac ar benwythnosau.

Mae'r dull a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ledled Cymru ar weithredu'r polisi hwn yn amrywio'n sylweddol, er enghraifft pryd a sut mae plant yn manteisio ar y ddarpariaeth hon. Mae nifer yr oriau o addysg a ariennir sy'n cael ei chynnig yn amrywio yn ôl ble mae plant yn byw, ac yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth lle cynigir addysg gynnar. Mae lleoliadau nas cynhelir sy'n derbyn cyllid i gyflwyno addysg gynnar hefyd yn derbyn cymorth gan eu hawdurdod lleol i'w helpu i gyflwyno'r arlwy addysg. Pan gyflwynir y ddarpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir, darperir cyllid fel arfer am 10 awr yr wythnos am hyd at 38 wythnos y flwyddyn. Mae hyn fel arfer yn golygu bod plant yn cael sesiynau addysg gynnar am ddiwrnod yr wythnos. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyllid yn uniongyrchol i'r lleoliad ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn lle a ariennir. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn ariannu lleoliadau nas cynhelir. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nid oes lleoedd a ariennir mewn lleoliadau nas cynhelir rhwng Medi a Rhagfyr. Yn ychwanegol, mae awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg dim ond yn cynnig lle rhan-amser a ariennir mewn ysgol a gynhelir i'r holl blant sy'n dair oed, tra

bod awdurdod lleol Powys dim ond yn cynnig lleoedd a ariennir mewn lleoliadau nas cynhelir.

Ledled Cymru, mae ystod o ddulliau o ran sut mae lleoliadau ac ysgolion yn derbyn cymorth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, addysgegau addysgu a dysgu. Mae awdurdodau lleol yn darparu'r cymorth hwn mewn ysgolion trwy eu gwasanaeth gwella ysgolion fel rhan o'r pecyn cymorth ehangach ar gyfer ysgolion. Yn gyffredinol, mae lleoliadau nas cynhelir yn derbyn eu cymorth trwy athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar a gyflogir gan awdurdodau lleol, sydd efallai'n cefnogi lleoliadau Dechrau'n Deg, hefyd. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae awdurdodau lleol yn defnyddio staff ysgol i roi cymorth i leoliadau. Mewn un enghraifft, mae awdurdodau lleol yn dirprwyo cyllid i'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion sy'n cydlynu'r cymorth i leoliadau trwy eu timau ymgynghorol y blynyddoedd cynnar. Yn ychwanegol, mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion hwnnw yn defnyddio lleoliadau arweiniol i ddarparu hyfforddiant ychwanegol a chymorth wyneb yn wyneb.

Yn ogystal â derbyn cymorth gan awdurdodau lleol neu wasanaethau gwella ysgolion, mae bron pob un o'r lleoliadau nas cynhelir yn gysylltiedig â sefydliadau gwirfoddol, fel Blynyddoedd Cynnar Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd neu Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau ymbarél hyn yn rhoi cyngor ac arweiniad i arweinwyr lleoliadau nas cynhelir ar ystod o faterion. Gall hyn gynnwys darparu yswiriant, mynediad at ddogfennau polisi a hyfforddiant mewn meysydd fel hylendid bwyd, cymorth cyntaf, Cwricwlwm i Gymru a datblygu'r Gymraeg. Maent hefyd yn cynrychioli lleoliadau ar faterion ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae lleoliadau ac ysgolion yn derbyn cyllid i helpu lleihau effaith tlodi trwy'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC). Nod y cyllid hwn yw gwella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel trwy leihau'r rhwystrau y maent yn aml yn eu hwynebu i gyflawni eu llawn botensial. Mae'r GDDBC yn adnodd allweddol ar gyfer cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb.

Rydym yn gwybod bod addysg gynnar o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae'r profiadau, y wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Mae Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2021) yn amlinellu fframwaith ar gyfer dysgu sy'n hyrwyddo cydweithio a chynllunio ar draws disgyblaethau. Ei nod yw helpu dysgwyr i greu cysylltiadau ar draws eu dysgu a chyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a medrau. Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn nodi: 'Uchelgais y cwricwlwm hwn yw ennyn ymdeimlad cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith plant a fydd, os caiff ei feithrin, yn para am oes ac yn rhoi'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar bob un o'n plant i'w helpu i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru.'

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried ac yn adrodd ar effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir i leoliadau ac ysgolion nas cynhelir i leihau effaith tlodi ar blant yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a'r effaith a gaiff hyn ar eu datblygiad a chaffael medrau. Yn ychwanegol, mae'n gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau pontio o'r cartref i'r lleoliad a rhwng lleoliadau ac ysgolion. Mae'n nodi nodweddion darpariaeth ac arfer effeithiol, yn amlygu ble mae hyn yn llai llwyddiannus, ac yn archwilio'r rhesymau pam.

# Cymorth i leoliadau ac ysgolion

## Cymorth ar gyfer darpariaeth, addysgu a dysgu

Gwelsom fod amrywiant eang o ran sut oedd plant ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael addysg gynnar. Mae'r amrywiant hwn yn dylanwadu ar y math a'r lefel o gymorth a gynigir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion. Er enghraifft, mae gan leoliadau nas cynhelir a ariennir gan awdurdodau lleol i gynnig addysg gynnar hawl i gymorth ychwanegol i'w helpu i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ac addysgu a dysgu. Darperir y cymorth hwn yn bennaf gan athro ymgynghorol y blynyddoedd cynnar a gyflogir gan awdurdod lleol neu athro arbenigol y blynyddoedd cynnar o ysgol leol. Yn rhanbarth GCA[9], mae awdurdodau lleol yn ariannu'r gwasanaeth gwella ysgolion i ddarparu cymorth ar gyfer lleoliadau. Yng Nghaerdydd, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu bwrdd rheoli sy'n cynnwys penaethiaid o ysgolion meithrin lleol i gynnig y cymorth hwn.

Bron ym mhob un o'r lleoliadau nas cynhelir yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr yn hynod werthfawrogol o'r cymorth a'r arweiniad yr oedd eu hathrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yn ei roi iddynt. Roeddent yn rhoi cyngor, cymorth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol buddiol iddynt ar gyfer pob un o'u staff. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymweliadau rheolaidd yn eu galluogi i deilwra eu cymorth i anghenion unigol pob lleoliad. Roedd yr ymweliadau hyn yn aml yn cynnwys adroddiadau ysgrifenedig buddiol a oedd yn amlinellu cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu, ac yn cynghori ar gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd arweinwyr lleoliadau yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fynychu cyfarfodydd rhwydwaith lleol lle roeddent yn cael gwybodaeth berthnasol ac yn elwa ar arfer dda a oedd yn cael ei rhannu. Roedd hyn yn arbennig o wir yn sgil rhoi'r Cwricwlwm i Gymru a threfniadau asesu newydd ar waith, ac yn sgil cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, hefyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd lleoliadau'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a oedd yn cael eu cynnig iddynt. Yn benodol, roedd arweinwyr yn hynod werthfawrogol o'r hyfforddiant a gawsant wrth roi trefniadau'r cwricwlwm ac asesu ar waith ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

Mae lleoliadau nas cynhelir hefyd yn elwa ar gymorth ac arweiniad gan y sefydliadau ymbarél[10] y maent yn gysylltiedig â nhw. Yn ystod ein hymweliadau, dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr lleoliadau fod y sefydliadau hyn wedi rhoi cymorth buddiol iddynt trwy gasgliad o gyrsiau a deunyddiau ar-lein a oedd yn eu helpu i fod yn wybodus am faterion a datblygiadau pwysig. Pan roedd arweinwyr ac ymarferwyr yn gallu mynychu digwyddiadau rhwydwaith lleol a chynadleddau ar raddfa fawr,

[9] GCA – Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru – Gwasanaeth gwella ysgolion y pum awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru; Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

[10] Corff sy'n darparu cymorth, cydlynu ac eirioli trosfwaol ar gyfer gwasanaethau amrywiol y blynyddoedd cynnar, gweithwyr proffesiynol, a lleoliadau sy'n gweithio gyda phlant ifanc (yn nodweddiadol o'u geni hyd at 7 oed) a'u teuluoedd.

roeddent yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau dysgu proffesiynol hyn a oedd yn eu helpu i wella'u harfer. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd arweinwyr bob amser yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt i wella'u harfer neu ddatblygu eu medrau arwain. Roedd hyn yn hynod wir mewn ychydig o awdurdodau lleol lle roedd angen cymorth ychwanegol ar arweinwyr lleoliadau Cymraeg i wella'u medrau Cymraeg eu hunain neu fedrau Cymraeg eu staff. Yn y lleoliadau hyn, roedd arweinwyr yn deall ystod o lefelau rhuglder eu staff a'r angen am welliant, ond nid oeddent yn gallu manteisio ar gymorth addas. Cydnabuont fod hyn yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad plant yn y Gymraeg, yn enwedig y rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Yn ystod yr adolygiad, dywedodd ymarferwyr ysgolion wrthym am y dysgu proffesiynol roeddent yn gallu manteisio arno i'w helpu â'u rolau. Sonion nhw am y modd y mae awdurdodau lleol a phartneriaid cefnogi gwelliant ysgolion yn darparu dysgu proffesiynol buddiol ar ddatblygu'r cwricwlwm i'w helpu i gael dealltwriaeth o ddilyniant y cwricwlwm ac addysgeg effeithiol. Yn yr achosion gorau, roedd hyn yn rhoi dealltwriaeth fuddiol iddynt o sut i ddefnyddio dogfennau'r cwricwlwm i'w cynorthwyo i gynllunio cwricwlwm ysgol a oedd yn adlewyrchu egwyddorion arfer effeithiol yn y blynyddoedd cynnar yn y ffordd orau. Fodd bynnag, at ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion fod dysgu proffesiynol pwrpasol cyfyngedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Roedd penaethiaid yn rhannu pryder cyffredin am lefel yr arbenigedd oedd ar gael trwy wasanaethau gwella ysgolion i ddarparu cymorth a dysgu proffesiynol effeithiol yn y blynyddoedd cynnar. I'r ysgolion hynny mewn awdurdodau lleol sy'n cynnig yr hawl gynnar i addysg mewn ysgolion a lleoliadau, fel ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion nad oeddent yn gallu manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol a oedd ar gael i'w harweinwyr cyfatebol yn y sector nas cynhelir.

Yn yr ysgolion hynny lle roedd arfer yn werth ei rhannu, roedd cyfleoedd buddiol iddynt rannu eu harfer effeithiol yn y blynyddoedd cynnar gydag ysgolion o bob rhan o'r awdurdod lleol ac mewn cynadleddau ehangach. Er enghraifft, cyflwynodd un ysgol ar sut roeddent yn gweithio gyda'i gilydd ar draws gwasanaethau amlasiantaethol er budd plant a'u teuluoedd.

Mewn ychydig o achosion, roedd arweinwyr a staff yn trefnu ymweliadau buddiol ag ysgolion lleol sydd â lefelau tebyg o ran amddifadedd. Roedd y cyfleoedd hyn yn eu galluogi i fyfyrio ar eu harfer eu hunain a rhannu syniadau ar gyfer gwella.

Roedd llawer o arweinwyr o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion a gynhelir yn gwerthfawrogi'r cymorth roeddent yn ei gael gan sefydliadau amlasiantaethol a thimau i gefnogi lles emosiynol, iechyd a lles plant a'u teuluoedd. Er enghraifft, roedd hyfforddiant a ddarperir trwy'r 'Cynllun Cyn-Ysgol Iach' yn rhoi gwybod i arweinwyr am sut i ddarparu bwyd iach, cost-effeithiol a maethlon. Yn yr achosion gorau, roedd arweinwyr yn rhannu'r wybodaeth hon â theuluoedd. Dywedodd arweinwyr fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu gwybodaeth a medrau rhieni.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, roedd yr awdurdod lleol yn darparu cymorth buddiol i'r ysgolion trwy 'Weithiwr Cyswllt Teuluoedd'. Mae'r rôl ranbarthol hon yn rhoi cymorth buddiol i deuluoedd yr ysgol a darpar deuluoedd â phontio, parodrwydd i

ddysgu[11], cymorth â defnyddio'r toiled a strategaethau ymddygiad. Ochr yn ochr â hyn, maent yn cyfeirio teuluoedd at elusennau a chymorth fel banciau bwyd lleol a digwyddiadau arbennig fel yr apêl teganau Nadolig. Roedd penaethiaid yn gwerthfawrogi'r rôl hon yn fawr a'r effaith gadarnhaol a gaiff hyn ar y plant a'r teuluoedd yn yr ysgol.

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roeddent wedi elwa ar gyllid ychwanegol trwy'r Fframwaith Iechyd, Lles a Gwydnwch Emosiynol[12] cenedlaethol fel rhan o gynllun peilot i weithio ochr yn ochr ag athrawon lleol i ddatblygu ymagwedd gyson at asesu pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol. O ganlyniad, dyfeision nhw ymagwedd ar y cyd at ddatblygu 'Storïau Dysgu' fel rhan o'u hasesiadau dechreuol. Roedd athrawon o'r farn fod hyn yn rhoi dealltwriaeth well iddynt o ddatblygiad cyfannol disgyblion wrth iddynt symud trwy ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol, a sut orau y gallent eu cynorthwyo â'u dysgu a'u datblygiad.

Mewn llawer o achosion, roedd arweinwyr yn trafod y partneriaethau effeithiol roeddent wedi'u datblygu â phartneriaid fel ymwelwyr iechyd a seicolegwyr addysg. Roeddent yn gwneud defnydd buddiol o hyn ar gyfer cymorth ychwanegol a gwybodaeth gyfoes am blant a'u teuluoedd. O ganlyniad, roedd arweinwyr yn gallu gweithredu'n gyflym i ddiwallu anghenion plant yn y ffordd orau. Roedd partneriaethau effeithiol â staff fel seicolegwyr addysg yn galluogi arweinwyr i elwa ar gymorth a hyfforddiant buddiol a oedd yn helpu i wella gwybodaeth a dealltwriaeth eu staff am y plant yn eu hysgol ar sut gallai tlodi fod wedi effeithio ar eu bywydau. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi elwa ar hyfforddiant ar destunau fel arfer sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roedd hyn yn helpu ymarferwyr i gael dealltwriaeth well ynghylch pam mae rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd cynnal perthnasoedd iach, ac effaith trawma ar blant ifanc. Pan mae lleoliadau ac ysgolion wedi mabwysiadu ymagwedd sy'n ystyriol o drawma, rhoddwyd sylw agosach i'r ffordd roedd ymarferwyr yn ymateb i blant a'r ffordd roeddent yn gwneud synnwyr o'u hymddygiadau fel ffordd o gyfathrebu.

Yn ystod ein hymweliadau, disgrifiodd ychydig o ysgolion y modd roeddent yn cydweithio ag ysgolion eraill i ddatblygu cymorth ar gyfer plant a'u teuluoedd. Roedd hyn yn eu galluogi i gydgyfrannu adnoddau a chyflwyno gweithdai a chymorth un i un i rieni, pan roedd angen.

[11] Diwallu anghenion unigol plant a datblygu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chorfforol cynnar.

[12] Mae'r Fframwaith hwn wedi'i anelu at anghenion dysgwyr o oedran ysgol a'r gweithlu sy'n cefnogi eu hanghenion dysgu a lles. Mae wedi'i fwriadu i gefnogi ysgolion, wrth adolygu eu tirlun lles eu hunain a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'u gwendidau ac adeiladu ar eu cryfderau. Mae'n cydnabod na all yr ysgol ddiwallu holl anghenion poblogaeth gymhleth plant a phobl ifanc ei hun, ac yn amlinellu rôl cyrff rhanbarthol, y GIG a sefydliadau eraill fel y trydydd sector, mewn cefnogi'r ysgol. Ei fwriad yw cefnogi ac ategu'r Cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru, ac yn benodol y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

**Defnyddio gweithiwr ymgysylltu â rhieni**

Yng **Nghanolfan Blant Treláі a Chaerau yng Nghaerdydd**, mae arweinwyr yn cyflogi gweithiwr ymgysylltu â rhieni amser llawn i gynorthwyo teuluoedd yn y gymuned. Maent yn cynnal grwpiau rheolaidd i rieni a babanod i feithrin perthnasoedd, modelu rhianta cadarnhaol a chyfeirio teuluoedd at wasanaethau eraill. Yn ychwanegol, llwyddon nhw i gael cyllid ar gyfer rheolwr hyb cymunedol i weithio gyda dwy ysgol gynradd leol arall a'u hysgol fwydo uwchradd. Roedd y rôl hon yn cefnogi'r teuluoedd mwyaf bregus, trwy weithgareddau fel casglu bwyd o'r banc bwyd lleol a mynd gyda rhieni pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd Tîm o Amgylch y Teulu.

## Cymorth i deuluoedd

Yn ystod ein hymweliadau, siaradodd arweinwyr o leoliadau ac ysgolion nas cynhelir, fel ei gilydd, yn onest am anghenion llawer o deuluoedd a'u plant, yn enwedig ar ôl y pandemig ac o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Siaradodd llawer o arweinwyr am sut mae tlodi gryn dipyn yn waeth na lefelau cyn y pandemig a'i fod yn fwy pellgyrhaeddol o lawer nag yr oeddent wedi'i sylweddoli i ddechrau. Maent bellach yn ymwybodol o rieni'n mynd heb fwyd, heb fod â dillad glân, ac o ganlyniad, gwelsant fod llawer o deuluoedd yn encilio ac yn ynysu. Cafodd hyn effaith niweidiol ar allu rhieni i ymdopi, ac felly eu gallu i rianta yn gadarnhaol. Yn aml, roedd hyn yn gofyn iddynt addasu eu hamgylchedd dysgu a'u darpariaeth i weddu'n well i anghenion sy'n dod i'r amlwg gan blant, ochr yn ochr â darparu cymorth penodol a thargedig i blant unigol a'u teuluoedd. Dywedodd llawer o arweinwyr fod eu rolau wedi newid a bod mwy o angen erbyn hyn i ymateb i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan dlodi, a oedd yn cymryd cryn dipyn o amser yn ystod eu diwrnod gwaith. Roedd llawer o arweinwyr yn cynorthwyo teuluoedd i gysylltu ag asiantaethau a gwasanaethau eraill, fel tai, y GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Dywedon nhw fod yr angen am y lefel hon o gymorth wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Bron ym mhob achos, roedd lleoliadau ac ysgolion yn cymryd amser i ddod i adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda. Roeddent yn datblygu perthnasoedd cryf a chefnogol gyda theuluoedd a oedd yn ymddiried ynddynt pan roeddent yn cael anawsterau.

Mewn mwyafrif o leoliadau ac ysgolion, roedd arweinwyr yn ymwybodol bod nifer gynyddol o rieni yn cael problemau iechyd meddwl. Yng nghyd-destun yr ysgol yn arbennig, roedd y materion hyn yn achosi rhwystr i rieni a oedd yn mynd i'r ysgol i gael cymorth a chefnogaeth, ac mewn llawer o achosion, roeddent yn cael effaith negyddol ar bresenoldeb plant.

Bron ym mhob achos, nid oedd arweinwyr o leoliadau ac ysgolion nas cynhelir wedi cael hyfforddiant na gwybodaeth benodol gan yr awdurdod lleol am sut orau i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol, personol neu ddatblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar y mae tlodi yn cael effaith andwyol arnynt. Er gwaethaf hyn, roeddent yn deall y gwahaniaeth y mae cynorthwyo teuluoedd mewn tlodi yn ei wneud i blant yn y blynyddoedd cynnar, ac yn gweithio'n galed i ddod o hyd i gymorth helaeth, a'i ddarparu. Mewn meysydd sydd â'r angen mwyaf, roedd rhywfaint o'r cymorth hwn yn cael ei roi ar ffurf cymorth ymarferol i deuluoedd gan ddefnyddio

banciau bwyd mewn ysgolion fel 'Big Bocs Bwyd'. Roedd teuluoedd yn gallu manteisio ar yr adnodd hwn trwy gynllun ariannu cyfran deg, lle roeddent yn talu am yr hyn yr oeddent yn gallu ei fforddio neu'n prynu eitemau am bris hynod ostyngol. Roedd yr ysgolion hefyd yn darparu cyflenwadau fel clytiau, llaeth, a bwyd am bris gostyngol ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion oedd yn cynnig y math hwn o gymorth yn manteisio ar gryn dipyn o gymorth trwy eu cysylltiadau â'r trydydd sector. Yn ychwanegol, roedd llawer o ysgolion yn cynnig cyfle i rieni gyfnewid gwisgoedd ysgol ail-law yn eu siopau gwisg ysgol sy'n cael eu rhedeg gan eu hysgol. Bu lleiafrif o leoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn gweithio gydag elusennau hefyd i ddarparu pecynnau teilwredig ar adegau arbennig o'r flwyddyn, er enghraifft y Nadolig. Yma, roedd eitemau bwyd a theganau yn cael eu rhoi i deuluoedd ar gyfer eu plant i helpu lleddfu'r baich ariannol, a deimlir yn arbennig ar yr adegau hyn o'r flwyddyn.

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, lle roedd mwy o angen i gynnig cymorth naill ai oherwydd nifer y disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi neu i ddiwallu anghenion teuluoedd, roedd llawer o ysgolion yn cyflogi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd. Yn ymarferol, roedd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn gweithio i gynorthwyo ysgolion i chwalu'r rhwystrau presennol a achosir gan dlodi, er enghraifft edrych ar wisg ysgol gost effeithiol, cyfeirio teuluoedd at fanciau bwyd neu gymorth tanwydd, a chynnig cyngor ac arweiniad yn ymwneud â materion tai. Dros gyfnod, datblygon nhw berthnasoedd ymddiriedus a chyson rhwng yr ysgol a'u teuluoedd. Cafodd y rôl hon effaith sylweddol ar blant yn y blynyddoedd cynnar. Mewn ychydig o enghreifftiau effeithiol, roedd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn cynnal grwpiau rhieni fel tylino babanod a gweithgareddau yn seiliedig ar chwarae. Roedd y grwpiau hyn yn lleihau'r rhwystrau a oedd yn cael eu dirnad gan rieni, ac yn datblygu eu hyder a'u hunan-werth. Roedd y perthnasoedd cryf hyn yn helpu plant i ymgyfarwyddo â bywyd ysgol ac yn helpu teuluoedd i deimlo eu bod yn gallu troi at yr ysgol pan roedd yr angen yn codi.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, roedd ysgolion yn cydweithio â'u cydweithwyr yn Dechrau'n Deg i roi gwybodaeth a chymorth gwerthfawr i rieni i'w helpu â'u heriau rhianta, trwy'r prosiect Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau (EPEC). Pan roedd hyn yn fwyaf llwyddiannus, roedd rhieni'n cael eu grymuso yn eu gwybodaeth a'u gallu i ddod yn arweinwyr grwpiau rhieni eu hunain a chyflwyno'r hyfforddiant i rieni newydd.

Bron ym mhob achos, roedd lleoliadau nas cynhelir yn rhoi cymorth ymarferol ac arweiniad buddiol i rieni. Roedd llawer ohonynt yn darparu cymorth rhianta ymarferol naill ai trwy gyflwyno gweithdai neu ddarparu llyfrynnau â chymorth a chyngor ar themâu fel cymorth â defnyddio'r toiled, bwyta'n iach a chymorth lleferydd ac iaith. Roedd llawer o leoliadau'n darparu bwyd fel grawnfwyd i blant llwglyd trwy gydol y sesiwn, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mynegodd lleiafrif o arweinwyr bryderon na fydd y cymorth hwn ar gael mor hawdd i blant wrth iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth yn yr ysgol.

Bron ym mhob achos, roedd arweinwyr yn ymdrechu i sicrhau bod gan blant yr hyn roedd ei angen arnynt i gymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r lleoliad, er enghraifft trwy ddarparu esgidiau glaw a dillad tywydd gwlyb ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Bron ym mhob achos, roedd arweinwyr yn cynnal digwyddiadau codi arian i godi arian ar gyfer profiadau oddi ar y safle ac adnoddau o fewn y lleoliad.

Mewn ychydig o achosion, roedd arweinwyr lleoliadau'n darparu pecynnau gofal personol ar gyfer rhieni i'w cynnal dros y cyfnodau gwyliau. Roedd y pecynnau gofal hyn yn darparu eitemau gofal personol, eli haul ac eitemau ymolchi, er enghraifft. Roedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r cymorth hwn i blant a'u teuluoedd o'u cyllidebau cyfyngedig iawn a heb unrhyw gyllid ychwanegol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni a gofalwyr i baratoi plant yn y ffordd orau ar gyfer symud i ddarpariaeth feithrin, yn enwedig pan roedd hyn gyda darparwr gwahanol, er enghraifft wrth symud o leoliad nas cynhelir i ddarpariaeth yn yr ysgol. Roeddent yn gweithio mewn partneriaeth agos i sicrhau bod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu. Yn aml, roeddent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni a gofalwyr am sut i gefnogi datblygiad medrau lleferydd ac iaith a rhifedd, ochr yn ochr â chyfeirio at wefannau i'w helpu i gefnogi dysgu eu plentyn. Roedd hyn yn helpu rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni i baratoi eu plentyn ar gyfer parodrwydd i ddysgu.

Roedd llawer o arweinwyr ysgolion a lleoliadau yn cydnabod yr her oedd yn wynebu llawer o deuluoedd i baratoi plant ar gyfer parodrwydd i ddysgu. Roeddent yn cydnabod bod llawer o'u plant yn byw mewn sefyllfaoedd anodd ac eisiau cefnogi eu teuluoedd i greu cysylltiadau cryfach rhwng eu plant a'r lleoliad. Roeddent yn cydnabod bod llawer o blant yn cael ystod gyfyngedig o brofiadau bywyd yn y cartref a'u bod yn anghyfarwydd â nodweddion eu hardal leol, er enghraifft y traeth lleol, weithiau o ganlyniad i effaith tlodi. Roedd ychydig o arweinwyr lleoliadau nas cynhelir yn creu 'tasgau cartref' wedi eu hanelu at feithrin cysylltiad rhwng y rhieni a'r gweithgareddau a'r dysgu yn seiliedig ar chwarae roedd eu plant yn cymryd rhan ynddynt yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Roedd y gweithgareddau cartref hyn yn rhoi profiadau gwerthfawr i blant eu rhannu yn ôl yn y lleoliad. Roeddent yn hyrwyddo cymryd rhan mewn chwarae, gweithgareddau corfforol a chreadigol y gallent eu cwblhau yn eu cartref a'r ardal leol, ac yn amlygu i rieni'r cyfleoedd dysgu a geir yno. Roedd y lleoliadau'n darparu'r holl ddeunyddiau oedd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau fel bod eu cost yn niwtral i deuluoedd, ochr yn ochr â beth i'w wneud a ble i fynd. Dywedodd arweinwyr yn y lleoliadau hyn fod y profiadau hyn wedi eu helpu i bontio bylchau a meithrin perthnasoedd cryfach rhwng plant a'u teuluoedd.

**Meithrin perthnasoedd dysgu**

Yn **Lleoliad Cyn-Ysgol Little Lambs Emmanuel** yn Sir Ddinbych a **Meithrinfa Little Stars** Torfaen, roedd arweinwyr yn cydnabod bod angen gweithio'n agos gyda theuluoedd i baratoi plant i fod yn barod i ddysgu. Roeddent yn cynnal sesiynau a digwyddiadau 'aros a chwarae' rheolaidd lle roeddent yn modelu rhyngweithio cadarnhaol ac yn rhannu cynghorion da gyda theuluoedd am sut gallent gynorthwyo'u plentyn adref. Roeddent yn darparu tasgau dysgu gartref i deuluoedd yn rhad ac am ddim. Roedd yr holl ddeunyddiau i wneud y gweithgareddau yn cael eu darparu gan y lleoliad. Roedd gweithgareddau'n cynnwys teithiau cerdded o gwmpas eu hardal leol i sbarduno sgwrs, gweithgareddau coginio a garddio. Rhoddodd y gweithgareddau hyn fewnwelediad gwerthfawr i rieni ar weithgareddau a oedd ar gael yn y lleoliad, a gwybodaeth fuddiol am sut mae eu plentyn yn datblygu a dysgu.

Cydnabu ychydig o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fod eu rhieni'n cael anawsterau â'u medrau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Felly, nid oeddent yn gallu rhoi'r medrau priodol a'r rhyngweithio o ansawdd da i'w plant a fyddai'n sicrhau eu bod yn rhoi'r dechrau gorau i ddysgu i'w plant. Roedd yr ysgolion hyn yn darparu cymorth ac arweiniad anffurfiol ar gyfer rhieni trwy ddigwyddiadau cymunedol a chyfle i fanteisio ar asiantaethau allanol. Er enghraifft, roedd un ysgol yn cynnal bore coffi rheolaidd lle roedd teuluoedd yn gallu manteisio ar wasanaethau amlasiantaethol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS). Roedd prosiect arall yn cymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan 'brosiect Lluosi'[13]. Roedd hon yn rhaglen bedair wythnos a oedd yn targedu rhieni disgyblion oedran meithrin na chyflawnon nhw radd C mewn Saesneg neu Fathemateg TGAU. Cynlluniwyd y sesiynau hyn i wella medrau rhieni meithrin a derbyn, ochr yn ochr â'u plentyn, gyda medrau rhifedd a llythrennedd, a rhoi syniadau iddynt am sut orau i gynorthwyo'u plentyn ar yr aelwyd. Roedd ysgolion eraill yn cynnal sesiynau wythnosol mewn partneriaeth â thimau lleferydd ac iaith ar gyfer rhieni a phlant yn y dosbarth meithrin. Dros gyfnod o 6 wythnos, roeddent yn modelu dulliau effeithiol, yn cynnwys gemau ac adnoddau y gellid eu defnyddio i gefnogi caffael iaith.

### Cyllid grant

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) yn darparu cyllid i ysgolion a lleoliadau addysgol i wella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel, gyda ffocws penodol ar ddarparu dysgu ac addysgu o ansawdd uchel a datblygu ysgolion bro. Ochr yn ochr â'r cyllid hwn, mae'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC) yn rhoi cymorth yn benodol i blant 3 a 4 oed â'u lles cymdeithasol, eu cyfathrebu a'u datblygiad corfforol mewn dyraniad i awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion a gynhelir a dyraniad ar wahân ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Ceir cyllid hefyd i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu'n destun Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig. Mae swm cyllid y GDDBC a roddir i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau wedi'i seilio ar nifer y plant 3 i 4 oed mewn ysgol neu leoliad nas cynhelir (er enghraifft meithrinfeydd) sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) diweddaraf. Rhoddir cyllid ar sail blwyddyn ariannol, yn seiliedig ar nifer y plant cymwys.

Oherwydd y cymhlethdodau yn sgil dyrannu cyllid CYBLD a'r diffyg data trylwyr ar blant 3 i 4 oed sy'n gymwys i gael addysg mewn lleoliadau neu ysgolion nas cynhelir, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru amcangyfrif nifer y plant sy'n gymwys am eu fformiwla cyllid grant datblygu. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid CYBLD i bob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer lleoliadau nas cynhelir hyd yn oed os nad yw awdurdod lleol yn ariannu addysg gynnar yn y lleoliadau hyn. Mae'r dull hwn yn golygu nad yw cyllid CYBLD ar gyfer lleoliadau nas cynhelir bob amser yn cael ei ddosbarthu'n deg ar draws awdurdodau lleol sy'n ariannu addysg gynnar mewn lleoliadau nas cynhelir. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod ychydig o awdurdodau lleol dan anfantais anghyfartal er bod ganddynt neu y bu ganddynt yr ardaloedd uchaf o amddifadedd yng Nghymru, ac felly mae'n ei gwneud yn anodd iddynt ddarparu'r lefelau priodol o gymorth. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr lleoliadau yn

[13] Mae Lluosi yn rhaglen newydd a ariennir gan y llywodraeth, trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, sy'n cynnig cyrsiau rhifedd am ddim i oedolion i fagu hyder â rhifau ac ennill cymhwyster.

yr awdurdodau hyn yn llai abl i ddyrannu cyllid tuag at ddarparu adnoddau a phrofiadau o ansawdd uchel i blant i helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi ar eu bywydau.

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar"- Canllawiau ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (sef y Grant Datblygu erbyn hyn). Yn y ddogfen hon, dywedodd:

> Ar ddechrau eu taith addysgol, mae dros chwarter o'n dysgwyr yn methu cael y canlyniadau y mae'r gallu ganddynt i'w cael, dim ond oherwydd eu bod nhw'n dod o gefndir tlawd. Mae'r Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn dangos erbyn pump oed gall plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fod hyd at flwyddyn ar ei hôl hi mewn rhai agweddau ar eu llythrennedd, o'u cymharu â phlant o gefndiroedd mwy llewyrchus. (tud. 2)

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y sylfeini tuag at bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Nod y GDDBC yw darparu cymorth ychwanegol i'r dysgwyr ieuengaf, sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Dylid blaenoriaethu'r gwariant hwn tuag at gefnogi a datblygu lles emosiynol a chymdeithasol a datblygiad corfforol plant, a'u medrau lleferydd ac iaith.

Mae pwyslais cryf ar gydnabod pwysigrwydd gweithlu'r blynyddoedd cynnar ac effaith y perthnasoedd a'r rhyngweithio o ansawdd da y maent yn eu creu gyda'r plant yn eu gofal. Mae rhyngweithio a pherthnasoedd o ansawdd uchel yn hanfodol i wella deilliannau ar gyfer y plant mwyaf difreintiedig. Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn tueddu i syrthio'n ôl yn eu gwaith oherwydd nad yw eu datblygiad o ran iaith, a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn cynnal y cyflymdra â'u cyfoedion. (Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant; 2003)

I wrthsefyll yr anfantais hon, dylai staff y blynyddoedd cynnar fod yn ymarferwyr medrus sy'n wybodus am ddatblygiad plant ac sy'n gallu nodi anghenion plant ac ymateb iddynt yn effeithiol.

Disgwylir i awdurdodau lleol sicrhau y bydd cyllid y GDDBC yn cael ei ddefnyddio i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n cael profiad o'r system ofal. Y nod yw lleihau'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng y dysgwyr hyn a'u cyfoedion.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddosbarthu'r cyllid ar gyfer y blynyddoedd cynnar i ysgolion a lleoliadau, a cheir ymagwedd gymysg at sut caiff yr arian hwn ei ddyrannu ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o leoliadau'n derbyn eu dyraniadau ar gyfer y GDDBC yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, caiff yr arian hwn ei gadw'n ganolog a'i wario ar ran y lleoliadau gan yr awdurdod lleol. Mewn un awdurdod lleol, sefydlwyd pwyllgor rheoli sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion meithrin lleol i oruchwylio'r defnydd o'r GDDBC mewn lleoliadau nas cynhelir.

Caiff dyraniadau ysgolion eu dirprwyo'n uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol ochr yn ochr â dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion (GDD) ysgolion. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn ymwybodol o'u dyraniad a fydd yn cael ei wario i wella deilliannau ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar, a gofynnir iddynt ddarparu cynlluniau i gefnogi hyn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, caiff y dyraniad hwn

ei gyfuno o fewn y dyraniad cyffredinol o gyllid y GDD, ac ni all arweinwyr ysgolion nodi'r swm a fydd yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar y disgyblion hyn yn y blynyddoedd cynnar.

Yn ystod ein hymweliadau fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnom i arweinwyr lleoliadau a phenaethiaid ysgolion sydd â dosbarthiadau meithrin sut roeddent yn dyrannu eu cyllid grant, a'r effaith yr oedd yr arian hwn yn ei chael ar ddysgu a datblygiad plant. At ei gilydd, roedd yn anodd i arweinwyr roi sylwadau ar yr effaith ar blant unigol oherwydd sut caiff y cyllid grant ei ddyrannu o fewn awdurdodau lleol. Felly, heb i rieni roi gwybod i arweinwyr am eu hamgylchiadau personol neu arweinwyr yn meddu ar wybodaeth flaenorol am deuluoedd, nid yw'n bosibl cyfeirio'r arian hwn at blant unigol 3 a 4 oed. O ganlyniad, roedd arweinwyr yn gyffredinol yn defnyddio'r arian hwn yn ehangach ar gyfer yr holl blant 3 a 4 oed yn eu lleoliad neu'u hysgol.

Yn yr achosion gorau, roedd arweinwyr mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn gwneud defnydd buddiol o'u dyraniad o'r GDDBC. Myfyrion nhw ar y blaenoriaethau o fewn eu prosesau hunanwerthuso i nodi'r meysydd pwysig i'w gwella a fyddai'n cael y canlyniad cadarnhaol gorau ar gyfer yr holl blant, ac yn cefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Roedd llawer o arweinwyr yn y sector nas cynhelir yn defnyddio'u cyllid i brynu adnoddau a fyddai'n hwyluso mynediad awyr agored ym mhob tywydd, fel dillad tywydd gwlyb; ardaloedd gwaith coed sefydledig i ymestyn medrau echddygol manwl, dyfalbarhad a chanolbwyntio plant; ac yn buddsoddi mewn adnoddau amrywiol i gefnogi datblygiad iaith. Yn ychwanegol, roeddent yn defnyddio'r cyllid i gyfoethogi profiadau dysgu trwy drefnu ymweliadau o gwmpas eu hardal leol, gan felly ehangu dealltwriaeth plant o'r byd. Hefyd, roedd arweinwyr yn buddsoddi mewn dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff, gan ymestyn eu gwybodaeth am ddatblygiad plant a'u harfogi i gefnogi dysgu plant yn well, yn enwedig mewn siarad, gwrando a lles emosiynol.

Fodd bynnag, yn yr awdurdodau lleol lle roedd arian grant yn cael ei gadw'n ganolog ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, gwelsom nad oeddent bob amser yn defnyddio'r arian hwn yn ddigon da i gynorthwyo arweinwyr i gael ymagwedd bwrpasol at fynd i'r afael ag anfantais yn eu cymunedau eu hunain. Yn y lleoliadau hyn, roedd llawer o arweinwyr yn aml yn teimlo, er bod y dysgu proffesiynol a'r adnoddau a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn ddefnyddiol, nid oedd bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar ddileu'r rhwystrau rhag dysgu i ddiwallu anghenion eu plant. O ganlyniad, credai'r arweinwyr hyn nad oedd defnyddio'r arian hwn yn cael rhyw lawer o effaith ar y plant yn eu lleoliadau. Mewn achosion o'r fath, mae arweinwyr yn aml yn anymwybodol o sut caiff cyllid y GDDBC ei wario o fewn yr awdurdod lleol, ac ychydig iawn o fewnbwn a gânt ynglŷn â'i ddyrannu. Mewn ychydig o achosion, dywedodd arweinwyr fod y cyllid yn ymddangos yn anghyfartal ledled y sir. Er enghraifft, roedd lleoliadau yn y lefel uchaf o amddifadedd yn derbyn yr un dyraniad o hyfforddiant ac adnoddau â'r lleoliadau hynny mewn ardaloedd mwy cefnog lle nad oedd yr angen mor fawr. Mewn ychydig o achosion, roedd arweinwyr lleoliadau yn defnyddio'u cyllid eu hunain neu ffrydiau cyllid eraill i roi i blant a'u teuluoedd yr adnoddau a'r cymorth oedd eu hangen arnynt.

At ei gilydd, roedd ysgolion a lleoliadau yn cael ychydig iawn o arweiniad a chymorth ar ffurf dysgu proffesiynol gan eu hawdurdod lleol neu'u gwasanaeth gwella ysgolion gyda ffocws penodol ar liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Yn achosion yr ysgolion yr ymwelom â nhw, er eu bod i gyd yn cael eu dyraniad o'r GDDBC yn uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol, nid oedd lleiafrif ohonynt yn gallu nodi eu dyraniad unigol o'r GDDBC. Roedd hyn oherwydd y modd roeddent yn derbyn eu cyllid, er enghraifft cael swm un taliad ar gyfer y GDD am y flwyddyn ysgol gyfan. Yn yr achosion hyn, nid oedd arweinwyr yn gallu nodi faint o'u cyllid GDDBC dyranedig oedd yn cael ei ddefnyddio yn y Blynyddoedd Cynnar.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd arweinwyr ysgolion yn defnyddio'r cyllid dyranedig i gynorthwyo ymarferwyr mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn i geisio sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau oedolyn i ddisgybl gofynnol, neu'n agos atynt. Dywedodd bron pob un o'r arweinwyr fod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r arian hwn yn y modd hwn am nad oedd y cyllid presennol ar gyfer disgyblion yn talu'r costau hyn. Heb y cyllid hwn, nododd arweinwyr y byddent yn ei chael yn anodd cynnal eu cymarebau oedolyn i blentyn presennol. Roeddent yn hynod werthfawrogol o'r cymorth a ddarparwyd gan yr aelodau staff hyn, gan nodi na fyddent yn gallu cyflwyno darpariaeth o ansawdd da hebddynt. Lleisiwyd pryderon cynyddol gan lawer o arweinwyr dros eu gallu i ariannu'r cymorth hwn yn y dyfodol, yn enwedig os bydd y cyllid yn gostwng. Mae anghenion presennol plant a theuluoedd yn cynyddu, ac er bod ysgolion yn ymdrechu i ddiwallu'r anghenion hyn, roedd costau cynyddol cyflwyno darpariaeth o'r fath yn creu rhwystr sylweddol.

Yn yr achosion lle roedd cymorth ar gyfer plant a'u teuluoedd ar ei gryfaf, roedd gan arweinwyr weledigaeth glir a chynhwysol i fynd i'r afael â thlodi ac yn darparu'r lefel uchaf o gymorth a darpariaeth y gallent, o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Roedd arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn blaenoriaethu mynd i'r afael â thlodi ac annhegwch ar draws eu hysgol. Roedd eu gweledigaeth wedi'i seilio ar gynwysoldeb a'r angen i fynd i'r afael ag annhegwch. Roeddent yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â rhieni a thimau amlasiantaethol i gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer plant. Roedd arweinwyr yn targedu cymorth i'r disgyblion mwyaf bregus ac yn gwneud defnydd effeithiol o staffio i gyflwyno rhaglenni targedig. Er enghraifft, roeddent yn darparu cymorth buddiol â lleferydd ac iaith, ac iechyd a lles emosiynol.

**Pontio**

Yn **Ysgol Gynradd Clawdd Wat,** Wrecsam, dynodwyd aelod o dîm y blynyddoedd cynnar gan arweinwyr i ymgymryd â rôl arweinydd pontio. Roedd y rôl hon yn cynnwys trefnu digwyddiadau a gweithgareddau pontio ar gyfer rhieni â phlant yn y blynyddoedd cynnar a darpar rieni i hwyluso'r cyfnod pontio i'r ysgol. Mae gweithgareddau fel sesiynau 'aros a chwarae' rheolaidd, a digwyddiadau'n ymwneud ag achlysuron arwyddocaol, fel y Nadolig a'r Pasg, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddod i adnabod y plant a'u teuluoedd yn well. Yn ystod y digwyddiadau hyn, mae rhieni'n cwblhau proffiliau yn nodi hoffterau a chasbethau eu plant, a sut orau y gellir eu cynorthwyo. Sylwodd arweinwyr fod rhieni'n awyddus i rannu gwybodaeth os gallent weld sut roedd yn helpu eu plentyn i ymgyfarwyddo â'r ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad i adborth gan rieni, gwnaeth yr ysgol addasiadau i'w hamgylchedd dysgu, gan gynnig corneli tawel i gynorthwyo plant ag anawsterau ymlyniad.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnom i bob un o'r 22 awdurdod lleol trwy eu cyfarfodydd tymhorol ag arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol Estyn sut roeddent yn mesur effaith cyllid y GDDBC. Awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb i fesur effaith yr

arian grant a neilltuir iddynt gan Lywodraeth Cymru. O'r ymatebion a gawsom, roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol yn defnyddio'u hathrawon ymgynghorol blynyddoedd cynnar i fonitro effaith y cyllid yn eu lleoliadau nas cynhelir. Maent yn monitro ac yn gwerthuso effaith y dysgu proffesiynol a'r adnoddau, a'r gwahaniaeth a wna hyn i ymglymiad ac ymgysylltiad plant. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn defnyddio ystod o ddata i ddyrannu cyllid mewn ffordd dargedig. Er enghraifft, maent yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)[14] ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)[15] Cymru i'w helpu i gynllunio'n strategol ar gyfer dirprwyo'r grant GDDBC. Maent yn canolbwyntio ar gategori amddifadedd incwm a nifer y plant o dan bedair oed sydd mewn tai tlawd neu orlawn, ac yn dyrannu cyllid yn ôl yr angen. At ei gilydd, rhannwyd gwybodaeth gyfyngedig gan awdurdodau lleol am sut roeddent yn mesur effaith cyllid y GDDBC mewn ysgolion. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth addas o'r hyn roedd ysgolion yn gwario eu harian arno. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd awdurdodau lleol yn cael gwybodaeth annigonol am sut roedd yr arian yn cael ei wario ar wella cynnydd plant, a sut roedd ysgolion wedi addasu eu darpariaeth ac yn darparu dysgu proffesiynol targedig.

## Cymorth ar gyfer ADY

Yn ystod ein hymweliadau, adroddodd arweinwyr ar draws y ddau sector ar y cynnydd yn niferoedd y plant sy'n dechrau mewn lleoliadau neu ysgolion ag anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg. Yn gyffredinol, teimlai arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir eu bod yn cael cymorth addas gan Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SADYBC) yr awdurdod lleol. Roeddent yn cael cyngor a chymorth rheolaidd a oedd yn eu helpu i gynllunio ar gyfer darpariaeth i ddiwallu anghenion plant unigol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, dywedodd arweinwyr lleoliadau nad oedd y cymorth hwn bob amser mor effeithiol ag y gallai fod. Nid oedd y cyngor a gynigiwyd bob amser yn diwallu anghenion plant unigol ac nid oedd yn canolbwyntio'n ddigon clir ar eu cynorthwyo â'u camau datblygu nesaf. Yn hytrach, roedd yn canolbwyntio'n ormodol ar 'fod yn barod am ysgol'[16]. Er enghraifft, canolbwyntiodd ar allu plant i eistedd a gwrando, cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a pharhau i ganolbwyntio ar dasg. Dywedodd arweinwyr fod hyn wedi cael effaith niweidiol ar les ac anghenion datblygiadol cyffredinol plant. Mewn lleoliadau o fewn adeiladau ysgol, dywedodd llawer o arweinwyr eu bod yn cael cymorth da gan staff y blynyddoedd cynnar a oedd yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol ar reoli plant ag ADY.

---

[14] Mae **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** yn fesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n rhestru ardaloedd yn seiliedig ar ffactorau amrywiol i nodi'r rhai sy'n profi lefelau amddifadedd uwch. Mae MALIC yn cyfuno data ar draws wyth parth allweddol, sef: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. Mae pob parth yn cyfrannu at sgôr amddifadedd gyffredinol, gan alluogi llunwyr polisi i dargedu adnoddau ac ymyriadau i wella deilliannau yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

[15] Mae **Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) Cymru** yn ardaloedd daearyddol bach a ddefnyddir at ddibenion ystadegol yng Nghymru. Mae pob ACEHI yn nodweddiadol yn cynnwys poblogaeth o ryw 1,000 i 3,000 o bobl ac wedi'i dylunio i fod yn gymharol unffurf o ran maint y boblogaeth.

[16] Mae bod yn barod am ysgol yn mesur pa mor barod yw plentyn i lwyddo mewn ysgol yn wybyddol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Mae'n derm a ddefnyddir i raddau helaeth gan Ofsted (Arolygu yn Lloegr).

At ei gilydd, roedd ysgolion a lleoliadau yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am blant, fel eu diddordebau, eu hoffterau a'u casbethau, cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad neu'r ysgol. Roedd rhieni'n rhannu'r wybodaeth hon gydag ymarferwyr a oedd yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio cymorth a phrofiadau yn briodol. Pan roedd arfer yn fwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â thimau amlasiantaethol fel therapyddion lleferydd ac iaith i rannu gwybodaeth ac arferion gorau. Yn yr achosion hyn, rhannwyd gwybodaeth berthnasol â rhieni, lleoliadau ac arweinwyr ysgolion, ac roedd hyn yn eu helpu i gynllunio trefniadau a chymorth pontio yn effeithiol.

Fodd bynnag, mynegwyd rhwystredigaeth gan y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion â lefel y cymorth a'r cyllid a oedd ar gael yn y sector nas cynhelir a darparwyr gofal plant Dechrau'n Deg gan nad oeddent yn gallu darparu'r un lefel hon o gymorth yn eu hysgol. Roedd yn heriol iddynt gyfleu hyn i rieni, ac esbonio na ellid atgynhyrchu'r cymorth roedd eu plentyn wedi'i gael yn y gorffennol wrth bontio i'w ddarpariaeth ysgol. Mewn ychydig o achosion, roedd hyn yn golygu bod yr ysgol wedi rhoi amserlen lai ar waith, tra roedd y plentyn wedi manteisio ar eu darpariaeth lawn yn y lleoliad nas cynhelir yn y gorffennol. Yn ychwanegol, pan roedd angen i rieni fanteisio ar ofal 'cofleidiol' ar gyfer eu plentyn, gan ddefnyddio'u lleoliad nas cynhelir blaenorol, gwelsant nad oedd y cymorth ychwanegol roeddent wedi'i gael yn y gorffennol ar gael iddynt yn y lleoliad mwyach gan fod y cyllid ychwanegol hwn wedi cael ei ddyrannu i'r ysgol.

Yn ystod ein hymweliadau, dywedodd arweinwyr a staff lleoliadau ac ysgolion wrthym am y dysgu proffesiynol sylweddol roeddent wedi ymgymryd ag ef i ymestyn eu rolau, yn enwedig wrth ddeall trawma plentyndod a'i effaith, yn ogystal ag asesu a chymorth lleferydd ac iaith. Roedd y cyfleoedd dysgu hyn wedi bod yn allweddol wrth helpu ymarferwyr i ddeall eu plant yn well ac addasu darpariaeth a rhyngweithio i ddiwallu eu hanghenion orau. Mewn ychydig o achosion, addasodd arweinwyr eu darpariaeth i gynnwys ardal ar wahân ar gyfer plant y gallai rhai adegau o'r dydd fod yn heriol iddynt. Roedd hyn yn caniatáu amser a gofod i blant reoli eu hemosiynau mewn amgylchedd tawel a oedd yn rhoi llai o symbyliad synhwyraidd, gyda llai o blant a chymarebau staff i blentyn uwch. Roedd y trefniant hwn yn cynorthwyo staff i arsylwi ymddygiadau a diwallu anghenion plant yn fwy effeithiol ac yn unigol.

**Cymorth ar gyfer ADY**

**Rachel's Playhouse,** Rhondda Cynon Taf.

Creodd arweinwyr ofod ychwanegol ar wahân ar gyfer y plant hynny oedd yn ei chael yn heriol pontio i'r lleoliad. Roedd hyn yn caniatáu amser a gofod i blant reoli eu hemosiynau. Dyluniwyd y gofod i fod yn dawelach gyda llai o adnoddau na gweddill y ddarpariaeth feithrin. Rhoddodd y gofod hwn amser i blant gydag ymarferwyr, gyda llai o bethau i dynnu eu sylw, mewn grwpiau bach a chymarebau uchel. Rhoddodd hyn amser gwerthfawr i ymarferwyr arsylwi ymddygiadau, hoffterau a chasbethau plant i'w helpu i baratoi ar gyfer symud i'r prif leoliad meithrin. Mae'r cyfnod pontio hwn wedi'i gynllunio'n dda, ac fe gaiff plant eu hintegreiddio'n araf wrth iddynt ddatblygu eu hyder a datblygu perthnasoedd ymddiriedus ag ymarferwyr.

## Effeithiolrwydd y ddarpariaeth

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae'n nodedig fod arweinwyr wedi dweud bod mwy a mwy o blant yn cyrraedd lleoliadau ac ysgolion ag anghenion cyfathrebu, personol a chymdeithasol sylweddol. I lawer o'r plant hyn, dyma effaith uniongyrchol byw mewn tlodi ac effaith pandemig Covid-19. O ganlyniad, nid ydynt wedi datblygu'r medrau eto i'w harfogi i fod yn barod ar gyfer dysgu. Trwy ein hymweliadau, bu'r tîm yn ystyried pa mor dda roedd lleoliadau ac ysgolion yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn trwy effeithiolrwydd yr amgylchedd dysgu, y profiadau a'u rhyngweithio ag oedolion. Defnyddiom y ddogfen Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir Nas Cynhelir a Galluogi Dysgu a'r 'Tair Elfen sy'n Galluogi', sef Oedolion sy'n Galluogi Dysgu, Amgylcheddau Effeithiol, a Phrofiadau Difyr, yn sylfaen ar gyfer ein sgyrsiau a'n harsylwadau o arfer trwy gynnal teithiau dysgu. Archwiliom ddealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad plant a sut roeddent yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth hon.

Roedd llawer o ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Roeddent yn cymhwyso'r wybodaeth hon i ddatblygu ymagwedd gydgysylltiedig at gynllunio a darpariaeth i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol. Roeddent yn adeiladu ar wybodaeth werthfawr gan deuluoedd am eu plant a oedd yn eu helpu i greu amgylchedd a phrofiadau a oedd yn cyd-fynd â chamau datblygiadol a diddordebau datblygol plant. Roedd ymarferwyr yn ystyried rolau'r amgylchedd, oedolion, a phrofiadau yn rhannau annatod o'u darpariaeth yn briodol.

Roedd lleiafrif o arweinwyr ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir fel arweiniad wrth gynllunio'u cwricwlwm ysgol eu hunain. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle roedd gwybodaeth am ddatblygiad plant yn llai cadarn, roedd llawer o arweinwyr a oedd yn llawn bwriadau da ond heb wybodaeth gywir yn cyflwyno plant i agweddau ffurfiol ar ddysgu yn rhy fuan mewn ymgais i 'leihau'r bwlch.' Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno addysgu medrau darllen cynnar yn gynnar trwy gyfarwyddyd llythrennau a seiniau a chofnodi gwaith rhif yn ffurfiol. Yn aml, nid oedd y ffocws cynamserol hwn ar ddysgu ffurfiol yn cyd-fynd ag anghenion datblygiadol plant ifanc.

### Amgylcheddau effeithiol

Yn ystod ein hymweliadau, gwelsom fod y rhan fwyaf o arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir wedi addasu eu hamgylcheddau dysgu i ganiatáu mwy o gyfleoedd i blant archwilio dan do ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, roedd plant yn cael ystod o weithgareddau a oedd yn eu helpu i ddatblygu eu medrau ar draws llwybrau datblygiadol y cwricwlwm yn effeithiol. Pan roedd arfer yn fwyaf effeithiol, roedd arweinwyr ac ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r hyn yr oeddent am i blant ei ddysgu a'r medrau penodol yr oeddent am i blant eu datblygu. Roeddent yn caniatáu digonedd o gyfleoedd i blant ddilyn eu diddordebau a chwarae'n ddi-dor am gyfnodau estynedig, a oedd yn cefnogi datblygiad eu medrau datrys problemau a meddwl. Roedd arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion y plant. Er enghraifft, roeddent yn darparu gofodau

synhwyraidd tawel i blant encilio neu gael symbyliad synhwyraidd pan roedd angen, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth da.

At ei gilydd, roedd yr amgylcheddau dysgu wedi eu trefnu'n ystyriol i hyrwyddo ymgysylltu ac annibyniaeth. Roedd adnoddau'n hygyrch, yn gwahodd plant i ddewis eu gweithgareddau ac ymgysylltu'n ddwfn â nhw. Roedd gofodau dan do ac yn yr awyr agored yn cael eu defnyddio'n greadigol i ddarparu amrywiaeth o brofiadau dysgu. Mewn llawer o achosion, roedd dillad tywydd gwlyb yn cael eu darparu er mwyn gallu chwarae'r tu allan ym mhob tywydd, a oedd yn helpu cefnogi medrau corfforol plant ac yn datblygu cysylltiad â natur. Roedd defnyddio adnoddau bywyd go iawn yn ymestyn yr amgylcheddau dysgu ac yn ennyn chwilfrydedd plant yn dda. O ganlyniad, roedd ymglymiad plant yn yr ardaloedd hyn yn tueddu i fod yn uchel. Roedd arweinwyr yn y lleoliadau a'r ysgolion hyn yn creu ardaloedd tra ystyriol, tawel ac ystyrlon i blant archwilio, gwneud dewisiadau a datblygu eu medrau.

Yn y lleoliadau oedd yn darparu gofal plant i fabanod, roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i ddilyniant plant wrth iddynt symud trwy'r lleoliad. Roeddent yn darparu gofal ac amgylchedd cyson a oedd yn adeiladu ar ymdeimlad plant o berthyn yn dda.

Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau'n darparu ystod o brofiadau yn yr awyr agored i blant ymgysylltu â natur. Roedd y profiadau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant gydweithio ag offer ac adnoddau ar raddfa fawr a datblygu dealltwriaeth o'r tymhorau.

Roedd llawer o arweinwyr lleoliadau ac ymarferwyr ysgolion yn rhoi ystyriaeth feddylgar i effeithiolrwydd yr amgylchedd ar hwyliau a gallu plant i ganolbwyntio'u sylw. Creon nhw amgylcheddau sy'n gefnogol i gyfathrebu a oedd yn cefnogi medrau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn effeithiol. Roedd arweinwyr yn ymgorffori gofodau tawel cysurus lle gallai plant feddwl a siarad gyda'i gilydd, ochr yn ochr ag ardaloedd ar gyfer chwarae rôl, chwarae creadigol, anniben, a chwarae yn yr awyr agored. Lleihaon nhw'r defnydd o liwiau yn yr amgylchedd i greu gofod dysgu tawel a chynhyrchiol. Rhoddodd ymarferwyr sylw agos i lefelau sŵn, gan sicrhau cyn lleied o sŵn cefndir ag y bo modd i helpu datblygu sylw a medrau gwrando plant.

Fodd bynnag, yn yr achosion lle roedd yr amgylchedd yn llai effeithiol, roedd adnoddau ac offer chwarae cyfyngedig ar gael dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Roedd y diffyg hwn o ran adnoddau yn aml yn arwain at lefelau ymgysylltu is ac ymddygiad mwy heriol ymhlith plant. Prin oedd y cyfle i blant arwain eu dysgu a'u harchwilio eu hunain trwy gyfnodau hir o chwarae di-dor. Yn yr achosion hyn, roedd plant yn treulio cyfnodau helaeth o'u hamser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolyn. Roedd cyfleoedd i blant ddatblygu medrau creu marciau, sefydlu cariad am lyfrau a darllen, ac ennill dealltwriaeth ymarferol o rif, siâp, a mesur, hefyd yn gyfyngedig. Pan roedd cyfleoedd o'r fath yn bodoli, roeddent yn aml yn canolbwyntio'n rhy gul ar ffurfio llythrennau a rhifau trwy weithgareddau copïo a throsysgrifo. Roedd byrddau a chadeiriau yn tueddu i ddylanwadu'n ormodol ar yr amgylcheddau hyn, gan olygu nad oedd digon o le ar gyfer dysgu gweithredol.

**Amgylchedd dysgu effeithiol**

**Caban Kingsland,** Ynys Môn

Mae arweinwyr wedi trefnu a chynllunio eu hamgylchedd i greu ardaloedd o ddarpariaeth sy'n annog plant i archwilio a datblygu eu medrau yn gyfannol. Mae arweinwyr wedi rhoi cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu wrth wraidd eu darpariaeth. Mae'r gornel gartref yn cynnig profiadau bywyd go iawn cyfoethog i blant, fel mesur fformiwla llaeth babi, torri ffrwythau a thorri bara i'w fwyta pan fyddant yn llwglyd, a chwarae ag ystod eang o offer a thaclau go iawn.

**Amgylchedd dysgu effeithiol**

**Ysgol Gynradd Monnow,** Casnewydd

Mae'r ysgol wedi creu amgylchedd tra ystyriol gyda phwyslais cryf ar blant yn dysgu trwy chwarae ac yn arwain eu dysgu eu hunain. Mae ymarferwyr yn darparu cyfnodau amser estynedig ar gyfer plant i chwarae yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored lle maent yn cael digon o her. Er enghraifft, mae adnoddau fel offer bach yn yr ardal gwaith coed yn helpu plant i ddatblygu eu medrau echddygol manwl yn effeithiol.

## Oedolion sy'n galluogi dysgu

Yn yr achosion gorau yn ystod yr ymweliadau adolygu, bu'r tîm yn arsylwi ymarferwyr a oedd yn gweithredu fel galluogwyr dysgu, gan ddarparu'r cydbwysedd cywir rhwng arweiniad ac annibyniaeth. Buont yn cael sgyrsiau ystyrlon â phlant, yn gofyn cwestiynau myfyrgar, ac yn annog archwilio. Roedd y dull hwn nid yn unig yn cefnogi datblygiad iaith ond hefyd yn meithrin medrau meddwl beirniadol plant, ac yn datblygu synnwyr o chwilfrydedd. Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, roedd ymarferwyr yn fodelau rôl iaith effeithiol. Roeddent yn defnyddio dulliau sy'n cefnogi medrau lleferydd ac iaith plant yn dda. Roeddent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'u hasesiadau o fedrau lleferydd ac iaith plant i lywio'u cynllunio a chamau dysgu nesaf y plant.

Pan roedd cynllunio ar gyfer darpariaeth a phrofiadau yn fwyaf effeithiol, roedd ymarferwyr yn defnyddio'r arsylwadau dyddiol i nodi cyfareddion plant a'u hymgorffori mewn gweithgareddau ystyrlon. Roeddent yn nodi dysgu bwriadol trwy hyrwyddo medrau ar y cyd â diddordebau plant, gan sicrhau cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad. Roedd ymarferwyr yn meithrin chwilfrydedd plant, yn dilyn eu harweiniad ac yn gwneud arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn effeithiol. Roeddent yn sicrhau bod gweithgareddau wedi'u cynllunio yn datblygu ystod eang o fedrau.

**Defnyddio arsylwi**

Yng **Nghanolfan Integredig i Blant Treláі a Chaerau**, Caerdydd, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gyfarfodydd cynllunio dyddiol i drafod arsylwadau ac asesiadau, ac yn addasu'r ddarpariaeth ar gyfer y diwrnod canlynol. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o anghenion plant a'r camau nesaf. Mae ymarferwyr yn cofnodi datblygiad plant yn effeithiol trwy 'gyfnodolion dysgu', sef cofnodion cronolegol o daith ddatblygiadol plentyn. Maent yn gwneud defnydd rhagorol o arsylwadau ac asesiadau oedolion, ffotograffau ac anecdotau i greu dathliad manwl o ddysgu plant.

Pan roedd ymarferwyr yn defnyddio'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a'r llwybrau datblygiadol yn eu darpariaeth, roeddent yn dechrau datblygu ymagwedd fwy ymatebol at addysgu a dysgu. Roedd ymarferwyr yn gwneud arsylwadau gwerthfawr o gyfareddion a chamau dysgu plant ac yn defnyddio model 'sylwi-dadansoddi-ymateb' i fynd i'r afael ag anghenion dysgu unigol plant.

## Profiadau difyr

Yn yr enghreifftiau gorau a arsylwyd gan y tîm, roedd y profiadau a gynigir i blant yn uniongyrchol, yn bwrpasol ac yn ystyrlon. Roeddent yn annog annibyniaeth plant ac yn cynnig risg a her addas. Mewn llawer o achosion, roeddent wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau bywyd go iawn dilys ac yn caniatáu lefelau dwfn o ymglymiad ac ymgysylltiad. Roeddent yn gyfannol ac yn galluogi plant i greu cysylltiadau ar draws pob maes dysgu. Roedd plant yn gallu dychwelyd at y profiadau hyn yn rheolaidd i ailedrych ar eu dysgu, a'i atgyfnerthu. Roedd y profiadau hyn yn cyffroi eu dychymyg a'u chwilfrydedd ac yn symbylu eu synhwyrau.

Roedd llawer o ymarferwyr ac arweinwyr yn dechrau ystyried sut gallent fod yn fwy cynhwysol yn eu harferion. Roeddent yn ystyried yn feddylgar sut gallent adlewyrchu cymunedau eu plant a'u teuluoedd mewn ffordd fwy dilys o fewn eu darpariaeth a'r profiadau roeddent yn eu cynnig. Roedd adnoddau fel llyfrau, arteffactau a dillad yn cael eu cynnwys yn y lleoliadau i ddatblygu ymdeimlad plant o berthyn. Roedd dathlu gwyliau a digwyddiadau diwylliannol arbennig yn darparu cyfleoedd go iawn i blant rannu eu bywydau a dysgu am fywydau pobl eraill.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau blynyddoedd cynnar ysgolion yr ymwelwyd â nhw, er bod arweinwyr ac ymarferwyr wedi creu amgylchedd dysgu a oedd yn adlewyrchu egwyddorion arfer effeithiol yn y blynyddoedd cynnar, roedd elfennau o'r diwrnod a oedd yn rhy ffurfiol o ran eu cyflwyno. Er enghraifft, roedd cyfnodau hir o amser grŵp ar ddechrau a diwedd sesiwn. Roedd y sesiynau hyn yn tueddu i ganolbwyntio'n benodol ar addysgu llythrennau a seiniau ac adnabod rhifau. Mewn llawer o achosion, nid oedd y rhan fwyaf o blant yn barod yn ddatblygiadol ar gyfer y math hwn o gyfarwyddyd.

Mewn llawer o ddosbarthiadau meithrin ysgolion, er bod ymarferwyr yn cydweithio o fewn yr ysgol i gynllunio profiadau a gweithgareddau, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio'n rhy agos ar thema ddewisol. Nid oedd y themâu hyn bob amser yn cymryd sylw digon da o brofiadau blaenorol plant a'u diddordebau a'u cyfareddion presennol. Yn ychwanegol, roedd llawer o ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau a

phrofiadau ar lefel rhy uchel yn ddatblygiadol oherwydd eu ffocws ar gamau dilyniant Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, yn yr achosion hyn, nid oedd plant yn creu'r cysylltiadau ar draws meysydd dysgu cystal ag y gallent.

## Dysgu proffesiynol

Ar draws llawer o leoliadau nas cynhelir, roedd arweinwyr yn blaenoriaethu dysgu proffesiynol ar gyfer staff, yn enwedig mewn meysydd fel datblygu'r cwricwlwm, deall trawma plentyndod a chymorth ar gyfer lleferydd ac iaith. Roedd y datblygiad proffesiynol hwn yn allweddol o ran ymestyn gallu ymarferwyr i gefnogi dysgu a lles plant yn effeithiol. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rolau ac wedi'u harfogi'n well i ddiwallu anghenion amrywiol y plant. Fodd bynnag, roedd yn fwy heriol i lawer o arweinwyr ysgolion gael mynediad at ddysgu proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar neu ddod o hyd iddo, i'w cynorthwyo i roi addysgegau ac arfer effeithiol ar waith. Mewn ychydig o achosion, roedd yr awdurdodau lleol yn defnyddio lleoliadau ac ysgolion i ddarparu hyfforddiant ar gyfer lleoliadau eraill yn yr ardal. Roedd y rhain yn cynnwys ffocws ar arweinyddiaeth effeithiol ac arfer y blynyddoedd cynnar. Dywedodd arweinwyr a oedd wedi cynnal ymweliadau â lleoliadau ac ysgolion eraill i arsylwi arfer effeithiol y bu hyn yn allweddol wrth eu helpu ar hyd eu taith wella'u hunain.

## Cynnig darpariaeth addysg

Yn rhan o'r adolygiad hwn, bu'r tîm yn ystyried darpariaeth y blynyddoedd cynnar sydd ar gael i rieni ledled Cymru a'i heffaith, yn enwedig ar deuluoedd y mae tlodi'n cael effaith andwyol arnynt. Ledled Cymru, mae amrywiad mawr o ran cyllid ac ymagweddau at gyflwyno addysg y blynyddoedd cynnar, yn cynnwys sut mae plant yn manteisio ar ddarpariaethau amrywiol. Mae amrywioldeb hefyd yn y dewisiadau sydd ar gael i rieni o ran ble y gallant gael addysg gynnar. Er enghraifft, ni all rhieni mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili fanteisio ar gyllid addysg mewn lleoliadau nas cynhelir yn ystod tymor yr hydref gan fod y ddarpariaeth hon ar gael mewn ysgolion yn unig. Gall rhieni yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg gael addysg gynnar mewn ysgolion yn unig, ond ym Mhowys, mae addysg gynnar ar gael mewn lleoliadau nas cynhelir yn unig. Mae'r cymhlethdodau ynghylch mynediad at addysg gynnar a chyllid ar ei chyfer ledled Cymru yn aml yn creu cynnig annheg ledled y wlad a dryswch i rieni, yn enwedig mewn ardaloedd awdurdodau lleol ar y ffin. Yn ychwanegol, mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae derbyniadau tymor y gwanwyn wedi'u seilio ar ba bryd mae'r Pasg yn hytrach na dyddiad penodol, fel 31 Mawrth, sy'n arwain at ansicrwydd blynyddol i rieni ynghylch cymhwystra'u plentyn am gyllid y tymor hwnnw. Dywedodd arweinwyr fod hyn wedi achosi dryswch ac anghysondebau mewn cyllid, gan wneud cynllunio staffio yn her i arweinwyr lleoliadau nas cynhelir.

Ledled Cymru, mae amrywioldeb ynglŷn â dyrannu lleoedd addysg mewn ysgolion sy'n arwain at arlwy annheg ledled Cymru. Er enghraifft, mae ychydig o awdurdodau lleol yn cynnig dewis lle yn y bore neu'r prynhawn, mae ychydig ohonynt yn cynnig darpariaeth amser llawn, ac yn yr awdurdodau lleol hynny lle cynigir darpariaeth ran-amser, mae amrywiad yn yr oriau a'r diwrnodau sydd ar gael. O ganlyniad i hyn, mae angen i rieni wneud penderfyniadau ynglŷn â ph'un a oes angen darpariaeth 'gofleidiol' arnynt a ble y gellir manteisio ar hyn os byddant yn ymgymryd â'r cynnig addysg gynnar mewn ysgol.

## Pontio

Mae cyfnodau pontio yn golygu newidiadau sy'n digwydd ym mywyd plentyn ac yn gofyn iddo addasu i set newydd o amgylchiadau. Er enghraifft, y cyfnod pontio o'r cartref i ofal plant neu leoliad addysg. Ni ddylai pontio fod yn ddigwyddiad untro; os yw'n llwyddiannus, mae angen iddo fod yn broses dros gyfnod fel bod plant yn cael eu harwain yn ofalus trwy'r newidiadau arwyddocaol hyn. Dylai'r gweithgareddau hyn gefnogi parhad a dilyniant yn natblygiad plant unigol. Dylai arweinwyr ystyried sut gallai cydweithio a gweithio mewn partneriaeth gefnogi'r cynllunio ar gyfer y cyfnodau pontio hyn, yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf bregus.

Yn achos yr adolygiad hwn, canolbwyntiom ar y newidiadau y mae plant ifanc yn eu profi wrth iddynt symud o'r cartref i leoliad gofal plant ac o'r lleoliad i'r ysgol. Buom yn ystyried y cyfnod pontio o ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg i addysg gynnar hefyd, lle bo'n briodol. Yn yr amgylchiadau hyn, gallai plant symud o un lleoliad i un arall neu aros o fewn yr un ddarpariaeth gofal plant. Ar hyn o bryd, nid ydym yn arolygu darparwyr Dechrau'n Deg, ac felly nid oeddem yn gallu asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal plant, a'r effaith a gafodd hyn ar leihau effeithiau andwyol tlodi. Fodd bynnag, galluogodd yr adolygiad hwn i ni werthuso pa mor effeithiol yr oedd darparwyr Dechrau'n Deg a darparwyr addysg yn cydweithio i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant, gan gynorthwyo cyfnodau pontio llwyddiannus.

Buom hefyd yn ystyried cysondeb y ddarpariaeth rhwng lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir a ariennir. Mae arferion a darpariaethau cyson a chyfarwydd yn ffactorau pwysig i gynorthwyo plant wrth iddynt symud o un darparwr i un arall.

Dywedodd llawer o arweinwyr fod llawer o rieni wedi bod yn fwy gorbryderus ynglŷn â gadael eu plant yn sgil pandemig Covid-19. Felly, bu'n rhaid i arweinwyr ailystyried eu harferion blaenorol i gynorthwyo'r rhieni hyn a'u hanghenion unigol yn well.

Mewn llawer o achosion, roedd digwyddiadau fel nosweithiau agored cyn dechrau ac ymweliadau â chartrefi yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ysgolion am blant a'u teuluoedd. Roedd y wybodaeth hon yn eu helpu i gynllunio profiadau a'r amgylchedd i ddiwallu eu hanghenion yn y ffordd orau.

Roedd hyn yn helpu plant i ymgynefino'n gyflym a ffurfio perthnasoedd cryf â staff. Roedd llawer o leoliadau ac ychydig o ysgolion yn cynnal sesiynau 'aros a chwarae' rheolaidd ar gyfer plant a'u teuluoedd cyn dechrau yn yr ysgol neu'r lleoliad. Roedd y gweithgareddau hyn yn helpu chwalu rhwystrau ac yn rhoi tawelwch meddwl i rieni.

Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant a'u rhieni ymweld â'r ysgol cyn dechrau. Roedd y rhain yn aml yn cael eu cynnal ar ffurf digwyddiadau gwybodaeth lle roedd arferion y diwrnod yn cael eu rhannu ochr yn ochr â chynghorion ac awgrymiadau defnyddiol ar gyfer rhieni i helpu plant i addasu. Roedd llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddarpar blant ymweld a dod yn gyfarwydd â'r adeilad a'u hystafell ddosbarth. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth, aros i gael cinio, gwylio dramâu ysgol a chymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon ar dir yr ysgol. Roedd y

gweithgareddau hyn yn helpu magu hyder plant ac yn meithrin perthynas gadarnhaol gydag amgylchedd a staff yr ysgol.

Yn rhan o'r gyfres o weithgareddau a gynhaliwyd gan ysgolion i ddod i adnabod y darpar blant a'u teuluoedd cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, roedd llawer o athrawon yn ymweld â'u lleoliad bwydo nas cynhelir. Roedd hyn yn helpu cael y plant i ymgyfarwyddo ag aelodau staff ac yn rhoi cipolwg iddynt ar sut beth fyddai eu diwrnod yn yr ysgol. Roedd bron pob lleoliad yn rhoi gwybodaeth fuddiol i ymarferwyr ysgolion am blant a'u datblygiad, eu cyrhaeddiad a'u hanghenion unigol. Sicrhaodd hyn fod ysgolion yn cael y wybodaeth angenrheidiol i gynorthwyo plant yn briodol. Mewn ychydig o achosion, roedd ymarferwyr lleoliadau ac ysgolion yn cynnal cyfarfodydd i drafod plant unigol a'u hanghenion. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, roeddent yn rhannu gwybodaeth fuddiol, fel asesiadau ac arsylwadau o blant yn chwarae, eu cyfeillgarwch a'u perthnasoedd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn helpu ymarferwyr ysgolion i ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o'r plant a fyddai'n mynychu eu hysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth hon cystal ag y gallent, ac roeddent yn canolbwyntio'n ormodol ar fedrau llythrennedd a rhif cynnar plant, a'u harferion gofal personol, er enghraifft p'un a oeddent wedi dysgu mynd i'r toiled.

Mewn ysgolion lle roedd lleoliadau gofal plant yn darparu gwasanaeth cofleidiol ac yn casglu plant o'r ysgol leol, yn aml, roedd perthynas gref rhwng staff. Mewn llawer o achosion, roedd ymarferwyr yn cael cyfleoedd i rannu gwybodaeth fuddiol yn ystod trosglwyddiadau, a oedd yn eu helpu i ddeall y plant yn well a chynnal dull cyson.

Fodd bynnag, mewn lleoliadau lle roedd plant yn trosglwyddo i amryfal ysgolion yn yr ardal leol, roedd datblygu trefniadau pontio effeithiol yn fwy heriol, o ganlyniad i nifer fach y plant yn mynychu pob ysgol. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oedd ymarferwyr ysgolion bob amser yn ymweld â'r lleoliad i gyfarfod â'r plant, ond roeddent wedi derbyn dogfennau wedi'u hanfon gan arweinwyr lleoliadau i helpu'r broses bontio. Mewn ychydig o achosion, roedd ymarferwyr ysgolion yn ffonio'r lleoliad i siarad ag arweinwyr neu weithiwr allweddol y plentyn, mewn ymdrech i ddod i adnabod y plant yn well.

At ei gilydd, yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arferion cryf ac effeithiol ar waith i gynorthwyo'r plant hynny ag anghenion dysgu ychwanegol wrth iddynt symud i'r lleoliad ysgol. Roedd arweinwyr yn gweithio gyda rhieni, timau amlasiantaethol a staff lleoliadau nas cynhelir i rannu gwybodaeth a dogfennau perthnasol. Pan roedd hyn yn fwyaf llwyddiannus, bu ymarferwyr yn cydweithio i sicrhau darpariaeth gyson a strategaethau llwyddiannus ar y cyd a oedd yn diwallu anghenion unigol plant orau.

Mewn tua hanner y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, roedd darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei chynnig yn yr un lleoliad ag addysg gynnar, neu roedd wedi'i lleoli o fewn tir yr ysgol. Yn yr achosion hyn, roedd cyfnodau pontio yn fwy esmwyth gan fod ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Pan roedd ysgolion wedi'u lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, roedd llawer o ymarferwyr yn datblygu perthnasoedd agos â'u cydweithwyr Dechrau'n Deg ac ymwelydd iechyd lleol Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd cyfarfodydd tymhorol i drafod datblygiad ac ymddygiadau plant. Roedd y cyfarfodydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr, gan helpu darparwyr i gynnal darpariaeth gyson a pharatoi ar gyfer y garfan o blant a'u hanghenion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei efelychu ar gyfer y

lleoliadau a'r ysgolion hynny mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg. Mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg, dywedodd arweinwyr fod anhawster o ran cael cymorth gan ymwelydd iechyd a gwybodaeth am ddatblygiad plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad / ysgol, ac yn ystod eu cyfnod yno.

Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn y sector nas cynhelir ac ymarferwyr ysgolion nad oedd y wybodaeth asesu roeddent yn ei derbyn gan eu cydweithwyr Dechrau'n Deg mor ddefnyddiol ag y gallai fod. Ymarferion ticio blychau oedd yr asesiadau hyn yn bennaf, ac nid oeddent yn rhoi darlun cyfannol o'r plentyn. Nid oeddent yn adlewyrchu llwybrau datblygiadol y ECPLC, Fframwaith Ansawdd neu Gwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, roedd darparwyr addysg gynnar yn rhoi ychydig iawn o sylw i'r trefniadau hyn, gan ddibynnu yn hytrach ar wybodaeth a gasglwyd trwy drafodaethau a phroffiliau plant i gynllunio'u darpariaeth a'u cymorth.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â sampl o leoliadau ac ysgolion nas cynhelir ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Ymwelom ag 13 o leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir ac 17 o leoliadau a gynhelir a oedd yn darparu addysg feithrin a ariennir. Roedd y rhain yn cynnwys un ganolfan i blant y blynyddoedd cynnar, 15 ysgol gynradd ac un ysgol bob oed. Roedd wyth o'r lleoliadau a'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn rhai cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, sicrhaom fod cydbwysedd o leoliadau o wahanol gategorïau gofal plant, fel lleoliadau gofal dydd llawn a gofal sesiynol.

Roedd ysgolion a lleoliadau'n cael eu dewis ar sail eu maint, eu math, eu lleoliad daearyddol, a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol. Roedd yr holl drafodaethau yn rhai wyneb yn wyneb, a chawsant eu cynnal yn ystod tymor yr haf 2024. Yn ystod yr ymweliadau hyn, cyfarfuom ag arweinwyr lleoliadau nas cynhelir, arweinwyr ysgolion ac athrawon a staff y blynyddoedd cynnar.

Defnyddiom dystiolaeth o deithiau dysgu hefyd i'n helpu i ddeall sut roedd ansawdd yr amgylchedd dysgu yn diwallu anghenion plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Buom yn casglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion hefyd ac yn ystyried sut maent yn cefnogi ac yn herio darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar ac ysgolion i wella deilliannau ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Cynhaliom arolwg o rieni a fynychodd Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai 2024, hefyd. Oherwydd y gyfradd ymateb isel, nid ydym wedi cynnwys yr ymatebion yn yr adroddiad thematig hwn.

Hoffem ddiolch i'r plant, y disgyblion, staff lleoliadau ac ysgolion, a swyddogion awdurdodau lleol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn.

| Enw | Sector | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Blaen y Maes | Cynradd | Abertawe |
| Meithrinfa Ddydd Coleg Pen-y-bont | Nas cynhelir | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Caban Kingsland | Nas cynhelir | Ynys Môn |
| Ysgol Gynradd Cefn Fforest | Cynradd | Caerffili |
| Clych Meithrin Cas-mael | Nas cynhelir | Sir Benfro |
| Ysgol Gynradd Coedffranc | Cynradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Gynradd Cwm Glas | Cynradd | Abertawe |
| Lleoliad Cyn Ysgol Derw Bach | Nas cynhelir | Powys |
| Canolfan Integredig i Blant Trelái a Chaerau | Canolfan i Blant | Caerdydd |
| Ysgol Gynradd Glenboi | Cynradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Gynradd Heolgerrig | Cynradd | Merthyr |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan i Blant Trefyclo | Nas cynhelir | Powys |
| Little Lambs Emmanuel | Nas cynhelir | Sir Ddinbych |
| Meithrinfa Little Stars | Nas cynhelir | Torfaen |
| Meithrinfa Camau Bach | Nas cynhelir | Ceredigion |
| Ysgol Gynradd Millbrook | Cynradd | Caerdydd |
| Ysgol Gynradd Monnow | Cynradd | Casnewydd |
| Ysgol Fabanod Mount Street | Ysgol Fabanod | Powys |
| Meithrinfa Myrtle House | Nas cynhelir | Sir Gaerfyrddin |
| Meithrinfa Once Upon a Time | Nas cynhelir | Rhondda Cynon Taf |
| Rachel's Playhouse | Nas cynhelir | Rhondda Cynon Taf |
| Lleoliad Cyn Ysgol School Lane | Nas cynhelir | Conwy |
| Ysgol Gynradd Sirol Clawdd Wat | Cynradd | Wrecsam |
| Ysgol Gynradd Westwood | Cynradd | Sir y Fflint |
| YGG Tyle'r Ynn | Cynradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Bontnewydd | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Borthyn | Cynradd | Sir Ddinbych |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | Cynradd | Caerdydd |
| Ysgol Maesincla | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Parc y Tywyn | Cynradd | Sir Gaerfyrddin |

# Geirfa

**CAHMS** Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

**Dechrau'n Deg** Polisi Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gofal plant ar gyfer plant 2-3 oed mewn lleoliad gofal plant o ansawdd da. Gall plant fynychu am 2.5 awr y dydd am 5 niwrnod yr wythnos yn ystod y tymor. Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys:

- gofal plant rhan-amser (12.5 awr yr wythnos) o ansawdd uchel a ariennir ar gyfer plant 2–3 oed
- gwasanaeth estynedig ymwelwyr iechyd
- cyfle i gael cymorth rhianta
- cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu

Er mis Ebrill 2023, mae Cam 2 rhaglen Ehangu'r Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar ymestyn gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed ledled Cymru fel rhan o ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys yr holl blant 2 oed

**ECPLC** Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

**GDDBC** Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar

**Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir a Ariennir** Darparwyr gofal plant sy'n darparu addysg gynnar am o leiaf 10 awr yr wythnos

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Coram Family and Childcare trust .org.; Childcare Survey (2023)

Davis, A. Blackwell, C. Ellis, E. Padley, M. Stone, J. a Balchin, E. (2024) *A Minimum Income Standard for the United Kingdom in 2024.* York: Joseph Rowntree Foundation.

Estyn (2020) *Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein: Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol - Estyn (llyw.cymru). [Darllenwyd: 15 Hydref 2024].

Llywodraeth Cymru (2015) *Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar?* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: beth-sydd-wir-yn-gweithio-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar.pdf (llyw.cymru). [Darllenwyd 15 Hydref 2024].

Llywodraeth Cymru (2020) *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: arweiniad ac adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol [Darllenwyd 14 Hydref 2024]

Llywodraeth Cymru (2021) *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).*

Llywodraeth Cymru (2022a) *Ysgolion Bro.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Ysgolion Bro | LLYW.CYMRU [Darllenwyd 15 Hydref 2024].

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir - Hwb (llyw.cymru) [Darllenwyd 15 Hydref 2015]

Llywodraeth Cymru (2023) *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/3/2/1679399733/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf [Darllenwyd 15 Hydref 2024].

Llywodraeth Cymru (2024a) – *Strategaeth Tlodi Plant Cymru.* Ar gael ar-lein: Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU [Darllenwyd 15 Hydref]

Llywodraeth Cymru (2024b) *Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC) | LLYW.CYMRU [Darllenwyd 15 Hydref 2024].

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P, Siraj-Blatchford, I., a Taggart, B. (2004) *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Findings from Pre-school to end of Key Stage1.* Ar gael ar-lein: untitled (ioe.ac.uk) [Darllenwyd 15 Hydref 2024].

Thomas, G. a Thomas, S. (2023) *“Y mater mwyaf sy’n effeithio ar blant yng Nghymru” – mynd i’r afael â thlodi plant.* Senedd Cymru. Ar gael ar-lein: [“Y mater mwyaf sy’n effeithio ar blant yng Nghymru” – mynd i’r afael â thlodi plant (senedd.cymru)] [Darllenwyd 15 Hydref 2024]